

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**

**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig  
3 Mawrth 2026**

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026 (y Rheoliadau) yn sefydlu system electronig (digidol) ar gyfer tracio symudiadau gwastraff a reolir. Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion gorfodol ar weithredwyr safleoedd trwyddedig lle derbynnir gwastraff a reolir i gofnodi gwybodaeth am y gwastraff hwnnw a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi yn y system ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd cymeradwy. Mae'r Rheoliadau yn eithrio gwastraff masnachol a dderbynnir mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref gan y byddant yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau newydd yn ystod y cam nesaf.
- 1.2 Mae'r diwydiant gwastraff yn y DU yn cynnwys nifer fawr ac amrywiaeth gymhleth o weithredwyr. Yng Nghymru mae tua 748 o weithredwyr safleoedd gwastraff, 10,772 o esemptiadau gwastraff a 16,932 (7,675 yn haen uwch) o gludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff cofrestredig. Er mwyn sicrhau cyflwyno'r system ddigidol yn effeithiol, mae pob un o bedair llywodraeth y DU yn bwriadu gweithredu gofynion gorfodol fesul cam.
- 1.3 Mae'r offeryn hwn, sy'n berthnasol yng Nghymru, yn cyflwyno gofynion ar weithredwyr trwyddedig (h.y. y rhai sydd â thrwydded) safleoedd derbyn gwastraff ac eithrio gwastraff masnachol a dderbynnir mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Bydd ail gam yn creu offeryn pellach a fydd yn gosod gofynion gorfodol ar weithredwyr eraill yn y diwydiant gwastraff unwaith y bydd y system ddigidol wedi'i datblygu'n ddigonol, gan gynnwys gwastraff masnachol a dderbynnir mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Bydd yr ail gam hwn yn cyflwyno tracio symudiadau gwastraff yn ddigidol o safleoedd lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu i safleoedd derbyn gwastraff, gan gynnwys tra bod y gwastraff yn cael ei gludo.
- 1.4 Nod y mesurau yn y Rheoliadau hyn yw lleihau troseddau gwastraff a chefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi gylchol.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Gosodir y Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 160A(5)(b) o Ddeddf Diogelu'r

Amgylchedd 1990.

- 3.2** Dyma'r Rheoliadau cyntaf i'w gwneud o dan adrannau 34CA a 34CB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990"), sef pwerau newydd a fewnosodwyd yn Neddf 1990 gan adran 58 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer system tracio gwastraff electronig (digidol) a gofynion cysylltiedig.
- 3.3** Mae'r Rheoliadau yn sefydlu fframwaith statudol newydd ar gyfer tracio gwastraff a reolir (a ddiffinnir yn adran 75 o Ddeddf 1990 fel gwastraff cartref, diwydiannol neu fasnachol) yng Nghymru trwy system tracio gwastraff ddigidol.
- 3.4** Mae adran 34CA (7) o Ddeddf 1990 yn darparu pŵer penodol i ddynodi person i sefydlu, gweithredu neu gynnal y system a rhoi swyddogaethau i'r person hwnnw. Mae rheoliad 3 yn dynodi Gweinidogion Cymru fel "y person dynodedig" at y dibenion hynny ac yn rhoi swyddogaethau allweddol iddynt sy'n greiddiol i weithrediad y system tracio gwastraff yn ddigidol, gan gynnwys;
- sefydlu, cynnal a gweithredu'r system DWTS, a
  - chymeradwyo meddalwedd.
- 3.5** Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd lle derbynnir gwastraff a reolir o dan drwydded a roddwyd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (a ddiffinnir yn rheoliad 2 fel gweithredwr cyfleuster trwyddedig) roi gwybodaeth benodedig am y gwastraff hwnnw yn y system tracio gwastraff yn ddigidol o fewn terfynau amser rhagnodedig.
- 3.6** Mae'r Rheoliadau yn esemptio personau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol (a ddiffinnir yn adran 34CA (12) o Ddeddf 1990) o'r gofynion digidol yn y Rheoliadau yn unol ag adran 34CA (6) o Ddeddf 1990. Yn hytrach, gosodir gofynion amgen ar bersonau o'r fath i wneud, cadw a rhoi cofnodion ysgrifenedig o wybodaeth benodedig.
- 3.7** Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer diffoddiadau, cywiro gwallau, talu ffi system tracio gwastraff ddigidol ac yn gosod dyletswyddau ar y rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i fonitro cydymffurfedd a chynnal cofrestr gyhoeddus.
- 3.8** Gwneir darpariaeth hefyd i fynd i'r afael ag adennill costau, cosbau, apelau, mynediad at wybodaeth a rhannu gwybodaeth.

**3.9** Nid yw'r Rheoliadau yn effeithio ar y gofynion cyfredol ar weithredwyr cyfleuster trwyddedig (boed yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol ai peidio) i gwblhau a chadw disgrifiadau ysgrifenedig o wastraff sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan adran 34 o Ddeddf 1990 i gyd-fynd â throsglwyddo gwastraff a reolir (nodyn trosglwyddo gwastraff o dan reoliad 35 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011) a throsglwyddo gwastraff peryglus (nodyn traddodi o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005).

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

**4.1** Mae dros 200 miliwn tunnell o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn y DU<sup>1</sup> y mae tua 8 miliwn tunnell ohonynt yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru<sup>2</sup> bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes un ffordd gynhwysfawr o'i olrhain - gyda deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, rheoli a disgrifio gwastraff yn cael ei chyflwyno ar wahân dros yr oddeutu 30 mlynedd diwethaf.

**4.2** Mae gwahanol brosesau ar gyfer gwahanol fathau o symudiadau gwastraff, gyda symiau mawr o ddata a gofnodwyd trwy'r prosesau hyn naill ai ddim yn cael eu casglu neu ddim yn cael eu coladu'n ganolog. O ganlyniad, mae'n anodd iawn ar lefel genedlaethol i bennu ble mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu a beth sy'n digwydd iddo, ac ar lefel leol mae'n anodd i gynhyrchwyr gwastraff wirio bod eu gwastraff wedi'i drin yn briodol.

**4.3** Rhaid i weithredwyr safleoedd gwastraff a ganiateir yng Nghymru gyflwyno ffurflenni gwastraff chwarterol i CNC i adrodd am y mathau a'r meintiau o wastraff sy'n cael ei drin, gan sicrhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau amgylcheddol. Mae angen ffurflenni o fewn mis i ddiwedd y chwarter gan ddefnyddio templed electronig neu ffurflenni papur.

**4.4** Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn fwy sefydledig a chyson mewn perthynas â gweithgareddau awdurdodau lleol (ALI). Mae [Llif Data Gwastraff](#) (WDF) yn cael ei ddefnyddio gan bob un o'r pedair gwlad sy'n system ar y we i ALLau adrodd data gwastraff trefol. Yng Nghymru, mae gofyniad statudol i ALLau ddefnyddio WDF. Rheoliad 5 o [Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio \(Monitro a Chosbau\) \(Cymru\) 2011](#) yn gorfodi ALLau i ddefnyddio WDF fel modd o adrodd llif

---

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/uk-waste-data>.

Ffynonellau: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/local-authority-municipal-waste-management-2022-to-2023.pdf>; <https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf>; a <https://naturalresources.wales/media/694993/cd-2019-survey-web-accessible-final-003.pdf>

gwastraff mewn ffordd sy'n galluogi cyfraddau ailgylchu ALI i gael eu cyfrifo er mwyn penderfynu a yw targed statudol yn cael ei gyrraedd ai peidio. Gall methu â chyflawni targedau statudol arwain at gosb. Mae cywirdeb y cyfrifiad hwn yn dibynnu ar adrodd cywir ar gyfraddau gwrthod.

- 4.5** Mae data amcangyfrifedig sy'n ymwneud â gwastraff diwydiannol a masnachol (I&C), a gwastraff adeiladu a dymchwel (C&D), yn cael ei gaffael drwy arolygon cyfnodol o fusnesau yng Nghymru. Mae'r arolygon hyn yn ddrud. Gellir casglu data arall o'r Ddyletswydd Gofal gwastraff (DoC)<sup>3</sup> sy'n gofyn am ddisgrifiad ysgrifenedig o wastraff i gael ei gytuno a'i lofnodi pan gaiff ei drosglwyddo i berson arall. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chadw gan weithredwr gwastraff am o leiaf 2 flynedd a'i rhannu gyda'r rheoleiddiwr ar gais. Mae gofyniad tebyg ond mwy cynhwysfawr yn bodoli ar gyfer symudiadau gwastraff peryglus.
- 4.6** Mae DWTS yn offeryn hanfodol i ddod â'r ffyrdd gwahanol o gasglu data at ei gilydd a fydd yn darparu gwybodaeth fwy amserol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i wastraff. Yn ogystal, bydd yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i weithredwyr twyllodrus gystadlu yn y diwydiant a chyflawni troseddau gwastraff gan gynnwys tipio anghyfreithlon, camddosbarthu gwastraff bwriadol, allforion anghyfreithlon a gweithredu safleoedd gwastraff anghyfreithlon.
- 4.7** Mae DWTS hefyd yn offeryn hanfodol ar gyfer monitro cynnydd gyda'n Strategaeth Y Tu Hwnt i Ailgylchu a deddfwriaeth arall sydd gennym ar waith yng Nghymru (e.e. y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle <sup>[4]</sup>).
- 4.8** Disgwylir i DWTS ddisodli llawer o'r swyddogaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan WasteDataFlow yn y pen draw. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i ddeall yn llawn y gofynion data ar gyfer ALLau a sicrhau bod y system newydd yn cipio'r holl wybodaeth angenrheidiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau pontio llyfn a chywirdeb data parhaus.
- 4.9** Mae'r diffyg tryloywder o fewn y prosesau presennol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am symudiadau gwastraff yn darparu cyfleoedd i droseddwyr gwastraff weithredu, gan danseilio busnesau gwastraff cyfreithlon ac achosi niwed i'r amgylchedd ac i iechyd pobl. Amcangyfrifir bod troseddau gwastraff yn costio £15.2-32.4 miliwn bob blwyddyn i economi Cymru (ar sail prisiau 2016)<sup>5</sup>. Mae gweithgareddau troseddol yn cynnwys tipio anghyfreithlon, camddosbarthu gwastraff yn fwriadol, allforion gwastraff anghyfreithlon a gweithredu safleoedd gwastraff anghyfreithlon. Bydd cyflwyno system ddigidol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am symudiadau gwastraff yn galluogi CNC i ddarparu arolygiaeth fawr ei hangen er mwyn monitro cydymffurfedd ac yn ei

---

<sup>3</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Dyletswydd gofal gwastraff](#)

<sup>4</sup> [Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff \(Cymru\) 2023](#)

<sup>5</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020

gwneud hi'n llawer anoddach i weithredwyr twyllodrus gystadlu yn y diwydiant. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gwarchod yn well trwy leihau dympio anghyfreithlon, diogelu iechyd y cyhoedd trwy sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n briodol a hyrwyddo tegwch economaidd trwy gefnogi busnesau sy'n cydymffurfio.

**4.10** Pwysleisiodd Trydydd Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol CNC ar gyfer Cymru 2025 fod angen system olrhain data gwastraff gorfodol i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth presennol drwy drawsnewid systemau sydd wedi dyddio ar gyfer cofnodi symudiadau gwastraff. Un o brif amcanion digideiddio cofnodion gwastraff yw cynyddu tryloywder adrodd, gan ei gwneud hi'n anoddach i gwmnïau gwastraff twyllodrus gystadlu yn y diwydiant gwastraff a chyflawni troseddau<sup>6</sup> gwastraff.

**4.11** Er bod gwastraff yn fater datganoledig, mae pob un o bedair llywodraeth y DU wedi ymrwmo i gyflwyno gofynion gorfodol i dracio gwastraff yn ddigidol. Bydd offerynnau tebyg i'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, a fydd yn darparu gofynion tracio gwastraff yn ddigidol cydlynol ledled y DU.

**4.12** Mae'r Rheoliadau hyn yn dynodi Gweinidogion Cymru i sefydlu, cynnal a gweithredu'r system ddigidol.

**4.13** Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd derbyn gwastraff gofnodi gwybodaeth am y gwastraff a dderbyniant a rhoi'r wybodaeth honno yn y system ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd sydd wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredwyr gwastraff sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol,<sup>7</sup> hynny yw, person y mae ei gredoau crefyddol neu gredoau eraill yn anghydnaws â defnyddio offer electronig neu nad yw'n rhesymol ymarferol i berson ddefnyddio cyfathrebu electronig neu gadw cofnodion electronig am unrhyw reswm (gan gynnwys oedran, anabledd neu leoliad). Mae'r cyfryw bersonau yn esempt o'r gofynion digidol. Yn hytrach, rhaid i weithredwr sydd wedi'i eithrio'n ddigidol gydymffurfio â'r gofynion amgen a nodir yn y Rheoliadau sy'n cynnwys gwneud cais i CNC am 'rif wedi'i eithrio'n ddigidol', gwneud a chadw cofnodion ysgrifenedig am wastraff y maent yn ei dderbyn a sicrhau bod y cofnodion hyn ar gael i CNC ar gais. Er bod y mwyafrif o weithredwyr gwastraff yn fusnesau sydd â phersonoliaeth gyfreithiol, rydym o'r farn mai dim ond gweithredwyr gwastraff sy'n bersonau naturiol (fel unig fasnachwr) fyddai'n berson wedi'i eithrio'n ddigidol at ddibenion y Rheoliadau gan mai dim ond person naturiol a allai, er enghraifft, ddal credoau sy'n anghydnaws â defnyddio offer electronig.

<sup>6</sup> <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/f45ehjei/sonarr2025-final-report.pdf>

<sup>7</sup> Gweler adran 34CA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 am ddiffiniad o "person sydd wedi ei allgáu'n ddigidol"

**4.14** Rhaid i weithredwyr gwastraff y mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r system ddigidol dalu ffi gwasanaeth blynyddol o £26<sup>8</sup>. Bydd y ffi hon yn cael ei defnyddio i adennill costau sefydlu, gweithredu a chynnal a chadw'r system. Gan nad yw gweithredwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn defnyddio'r system ddigidol, nid yw'n ofynnol iddynt dalu'r ffi.

**4.15** Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer troseddau newydd a sancsiynau sifil. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion (digidol ac amgen) yn y Rheoliadau ar wahân i'r gofyniad i dalu'r ffi flynyddol. Yn hytrach, ni fydd gweithredwr gwastraff sy'n methu â thalu'r ffi yn gallu rhoi'r wybodaeth ofynnol am wastraff a dderbyniant yn y system ddigidol, sy'n drosedd yn ogystal â thramgwydd sy'n destun cosb sifil. Ystyrir bod sancsiynau troseddol yn angenrheidiol er mwyn galluogi CNC i gosbi troseddwy'r ailadroddus yn effeithiol, mynd i'r afael â throseddau mwy difrifol a sicrhau nad yw'r system newydd yn cael ei thanseilio gan weithredwyr diegwyddor.

## **Y broblem sydd dan sylw**

**4.16** Ar hyn o bryd, rhaid i weithredwyr gwastraff trwyddedig ddarparu disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff i fynd gyda'r gwastraff wrth iddo gael ei drosglwyddo. Rhaid i'r disgrifiad ysgrifenedig gynnwys gwybodaeth am y gwastraff a'r gwahanol weithredwyr sydd ynghlwm wrth symud y gwastraff. Mae copïau o'r disgrifiadau ysgrifenedig hyn yn cael eu rhannu a'u llofnodi pan fydd y gwastraff yn cael ei drosglwyddo rhwng gwahanol weithredwyr yn y gadwyn, gan gynnwys gweithredwyr safleoedd derbyn gwastraff y mae'n ofynnol iddynt gadw copïau o'r dogfennau hyn ar hyn o bryd a chyflwyno'r wybodaeth a gofnodir ynddynt yn chwarterol i CNC.

**4.17** Yn ystod cam 4.17, bydd yn ofynnol i weithredwyr trwyddedig o safleoedd derbyn gwastraff gadw a chyflwyno'r disgrifiadau ysgrifenedig o'r gwastraff yn ogystal â gwneud cofnod digidol o wybodaeth benodedig am y gwastraff hwnnw. Rhaid i'r wybodaeth yn y cofnod gwastraff digidol gael ei rhoi yn y system ddigidol o fewn 2 ddiwrnod gwaith gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r gweithredwr yn derbyn y gwastraff. Mae hyn yn darparu mwy o fanylion nag yn y ffurflenni safle cryno chwarterol cyfredol a anfonir i CNC, ac fe'i darperir mewn 'amser real' yn hytrach nag erbyn mis ar ôl diwedd pob chwarter.

---

<sup>8</sup> Bydd y tâl gwasanaeth yn cael ei adolygu ar ôl 12 mis o ddefnydd gorfodol o'r gwasanaeth. Byddwn yn defnyddio data o'r gwasanaeth i gyfrifo beth ddylai'r tâl gwasanaeth cywir fod ar gyfer adennill costau a byddwn yn newid y swm trwy OS diwygio.

## 5. Ymgynghori

**5.1** Cynhaliodd y DU a Llywodraethau Datganoledig ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Ionawr a 15 Ebrill 2022<sup>9</sup>.

**5.2** Nododd yr ymgynghoriad y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

**5.3** Anelwyd yr ymgynghoriad at y rhai y byddai'n ofynnol iddynt roi gwybodaeth neu dynnu gwybodaeth o'r gwasanaeth, gan gynnwys busnesau ym mhob sector, y llywodraeth, rheoleiddwyr, y byd academiaidd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**5.4** Cafwyd cyfanswm o 713 ymateb i'r ymgynghoriad. At ddibenion crynhoi'r ymatebion, dim ond yr ymatebion hynny a oedd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau ymgynghori a gafodd eu crynhoi. O ganlyniad, roedd y crynodeb yn seiliedig ar 702 o ymatebion.

**5.5** Dangosodd crynodeb o'r ymatebion fod rhai ymatebwyr yn gweithredu mewn sawl gwlad. Mae hyn yn esbonio pam mae cyfanswm nifer yr ymatebwyr yn fwy na 702 yn y tabl isod a godwyd o'r crynodeb:

**Tabl 2 – Nifer yr ymatebwyr yn gweithredu ym mhob Gwlad**

| Gwlad yn y DU    | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|------------------|--------------------|---------------------|
| Lloegr           | 588                | 85%                 |
| Gogledd Iwerddon | 98                 | 14%                 |
| Yr Alban         | 182                | 26%                 |
| Cymru            | 164                | 23%                 |
| Dim ymateb       | 7                  | 1%                  |

**5.6** Roedd cefnogaeth eang i'r cynigion gyda 79% o'r ymatebwyr yn cytuno ar y mathau o wastraff y mae bwriad i'w dracio a 73% yn cytuno ar y gweithgareddau gwastraff a fyddai'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau tracio.

---

<sup>9</sup> [Cyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol | LLYW.CYMRU](#)

**5.7** Ystyriwyd yr holl ymatebion wrth ddatblygu'r cynigion diwygiedig a nodir yn yr ymateb ar y cyd â Llywodraeth y DU: [Cyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol | LLYW.CYMRU](#)

**5.8** Fel y nodwyd eisoes, mae'r offeryn hwn yn gweithredu cam cyntaf cyflwyno tracio gwastraff yn ddigidol yn orfodol yn unig. Mae'r ymgynghoriad yn parhau gyda rhanddeiliaid trwy ymchwil defnyddwyr a gweithgorau sefydlog y diwydiant wrth i ddatblygiad y gwasanaeth digidol barhau, a bydd hyn yn llywio offerynnau statudol yn y dyfodol wrth ehangu'r gofynion i gynnwys gweithredwyr eraill yn y diwydiant.

**5.9** Bydd canllawiau ar gyfer gweithredwyr sy'n cael eu heffeithio gan yr offeryn hwn yn cael eu cyhoeddi, a'u hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Cyflwyniad

1. Mae'r System Orlhain Gwastraff Digidol (DWTS) yn cael ei chyflwyno fesul cam ledled y DU. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynrychioli cam un o'r dull hwnnw a fydd yn cyflawni cofnodi gwybodaeth mewn perthynas â gwastraff a dderbynnir ar safleoedd derbyn gwastraff, ac eithrio gwastraff masnachol a dderbynnir yng Nghanolffannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (HWRCs) yng Nghymru. Dyma opsiwn 2 yn yr asesiad a ddarperir isod.
2. Bwriad Llywodraeth Bresennol Cymru yw y bydd HWRCs yn cael eu cynnwys mewn SI ychwanegol ar gyfer craffu a chymeradwyaeth y Senedd yn 2027 i gyflawni'r ail gam. Bydd yr ail gam hwn yn cyflwyno tracio symudiadau gwastraff yn ddigidol o safleoedd lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu i safleoedd derbyn gwastraff, gan gynnwys tra bod y gwastraff yn cael ei gludo. Disgrifir y sefyllfa a fyddai'n cael ei gyrraedd ar ôl cyflawni'r ail gam hwn fel opsiwn 3 yn yr asesiad isod ac fe'i cynhwysir fel bod effeithiau'r SI hwn yn cael eu hystyried yng nghydestun y system gyffredinol y mae'n darparu cam tuag at ei gyflawni.

### Dull a sefyllfa gyffredinol

3. Ystyriwyd tri opsiwn polisi rheoleiddiol o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dewiswyd y tri hyn o restr hir o opsiynau. Ystyriwyd dewisiadau amgen nad ydynt yn rheoleiddiol, er enghraifft, mentrau gwirfoddol. Fodd bynnag, nifer isel o ddefnyddwyr oedd gan systemau digidol gwirfoddol blaenorol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am symud gwastraff<sup>10</sup>. Felly, er bod dewisiadau amgen nad ydynt yn rheoleiddiol wedi'u hystyried, nid ydynt wedi cael eu dadansoddi o fewn yr opsiynau a ystyriwyd.

4. Y tri opsiwn a ystyriwyd yw:

**Opsiwn 1 (llinell sylfaen)** – Mae'r llinell sylfaen yn cynrychioli 'opsiwn gwneud y lleiaf'. Ni fydd yr opsiwn hwn yn hwyluso'r ymrwymadau i orfodi cofnodi'r holl symudiadau gwastraff yn ddigidol. Fodd bynnag, oherwydd ymrwymadau deddfwriaethol y llywodraeth, bydd gweithredwyr gwastraff yn cael eu gorfodi i gofnodi a chyflwyno data yn ddigidol ar symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus. O dan y llinell sylfaen, byddai angen i'r pedair gwlad

---

<sup>10</sup> Porth ar-lein nad oedd yn orfodol oedd y System Dyletswydd Gofal Electronig (EDOC), wedi'i gynllunio i roi dewis digidol gwirfoddol amgen i'r Nodyn Trosglwyddo Gwastraff ar bapur i fusnesau trosglwyddo gwastraff masnachol yn y DU. Daeth EDOC i ben yn 2021, ac roedd ganddo ychydig dros 11,000 o ddefnyddwyr.

felly ddatblygu eu gwasanaeth TG newydd eu hunain i alluogi hyn;

**Opsiwn 2 – (a ddarparwyd gan y Rheoliadau hyn) - Gweithredu gwasanaeth tracio gwastraff sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob **safle derbyn trwyddedig (e.e. safleoedd tirlenwi, cyfleusterau trin ac ailgylchu)** gyflwyno data yn electronig ar bob gwastraff a dderbynnir yn eu safleoedd bron iawn fel y mae'n eu cyrraedd. O dan yr opsiwn hwn, **dim ond yn y pwynt derbyn** y caiff data ei gipio; ac**

**Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir) – Gorfodi cofnodi yr holl symudiadau gwastraff o'r dechrau i'r diwedd yn ddigidol**, gan ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff, cludwyr, broceriaid a delwyr a safleoedd derbyn gofnodi a chyflwyno data i wasanaeth tracio gwastraff canolog. Mae'r opsiwn hwn yn cipio gwybodaeth **ar hyd y gadwyn wastraff lawn**, o'r pwynt y mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu i'r pwynt y caiff ei drin neu ei waredu yn derfynol. Yr opsiwn hwn yw'r un a ffefrir, gan fod y gwaith dadansoddi yn dangos ei fod yn darparu gwelededd lawn o'r holl symudiadau gwastraff ar hyd y gadwyn gyfan o'r dechrau i'r diwedd. Byddai hynny'n galluogi data cynhwysfawr, gorfodi cryfach a gostyngiadau sylweddol uwch mewn troseddau gwastraff ac aneffeithlonrwydd na'r sylw rhannol a gynigir gan Opsiwn 2, gan ddarparu gwell gwerth am arian i'r trethdalwr a chyflawni amcanion polisi. O ganlyniad, mae'n darparu gwell gwerth i'r trethdalwr ac yn bodloni amcanion polisi.

**5. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir yn y tymor hir** oherwydd ei fod yn darparu'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr gan gyflawni'r nodau polisi a'r effeithiau bwriedig. Nid yw opsiynau 1 a 2 yn cael eu ffafrio yn yr hirdymor oherwydd na fyddai'r effeithiau niweidiol presennol i'r amgylchedd naturiol, cymunedau lleol a busnesau cyfreithlon yn cael eu hystyried yn ddigonol. Fodd bynnag, ni ellir deddfu Opsiwn 3 ar hyn o bryd oherwydd bod y diwydiant gwastraff yn cynnwys nifer fawr ac amrywiaeth gymhleth o weithredwyr. Mae'r rhain yn gweithio ledled y DU mewn amrywiaeth eang o sectorau sydd â lefelau amrywiol o allu digidol. Er mwyn datblygu gwasanaeth sefydlog, effeithiol a hawdd ei ddefnyddio, mae angen i ni ei ddatblygu fesul cam. Mae hyn yn dechrau drwy greu sylfaen gadarn sy'n darparu rhai o'r manteision arfaethedig. Gellir ychwanegu agweddau ychwanegol wrth i ni ddysgu o brofi elfennau craidd y gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i fireinio ac addasu ein dull gweithredu wrth i ni symud tuag at wasanaeth olrhain gwastraff mwy cyflawn o'r dechrau i'r diwedd. Yn dilyn asesiad o'r opsiynau a'r arfer gorau rhyngwladol, bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar safleoedd derbyn gwastraff sy'n mewnbwyntio data am wastraff y maent yn ei dderbyn, sef opsiwn 2.

**6.** Heb y gallu i dracio pob gwastraff yn effeithiol ac yn effeithlon a chyfleu data perthnasol yn amserol (fel sy'n cael ei gynnig o dan Opsiwn 3) mae risg o'r effeithiau canlynol:

- Difrod amgylcheddol pellach;
- Aneffeithlonrwydd gweithredol;

- Anallu i ddatblygu strategaethau gwastraff a chynlluniau cyflawni; a;
- Llai o gyfleoedd buddsoddi ar gyfer arloesi.

7. Mae Tabl 3 yn cynnwys costau rhedeg/cynnal a chadw parhaus ar gyfer Opsiwn 3 (CDEL (Cyfalaf) (£0.49 miliwn heb ostyngiad a £0.48 miliwn gyda gostyngiad) a RDEL (Adnoddau) (£1.13 miliwn (heb ostyngiad) a £0.99 miliwn (gyda gostyngiad)) ar gyfer Cymru. Bydd angen cyfrif o gostau ac incwm i Defra na fydd angen eu talu gan Lywodraeth Cymru, ar y sail y byddai'r baich gweinyddol yn anghymesur â'r ffigur amherthnasol dan sylw.

### **Disgrifiad o'r Opsiynau Polisi**

8. Yng nghyfnodau cychwynnol y prosiect tracio gwastraff, ystyriwyd opsiynau nad ydynt yn rheoleiddiol ar gyfer tracio gwastraff – er enghraifft, cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu a chynnig hyfforddiant am ddim i hyrwyddo'r defnydd o symudiadau/trosglwyddiadau gwastraff wedi'u cofnodi'n ddigidol mewn systemau TG. Fodd bynnag, nid yw'r opsiynau nad ydynt yn rheoleiddiol wedi'u cyflwyno yn y gwerthusiad opsiynau ffurfiol gan nad ydym o'r farn y gallant fodloni'r amcanion polisi. Disgwylir mai defnydd isel a fyddai'n cael ei wneud o dracio digidol gwirfoddol, gyda'r mwyafrif o gwmnïau yn parhau i dracio fel y maent ar hyn o bryd (ffyrdd nad ydynt yn ddigidol). Gydag ymgyrch gyfathrebu effeithiol a lefelau uchel o fanteisio ar hyfforddiant, nid oes gwarant y bydd pawb yn cyflwyno eu data trwy sianeli presennol. Yn ogystal, ni fydd yn darparu unrhyw safoni na digideiddio llawn felly gall arwain at gostau ychwanegol i safoni data ar gyfer ei ddefnyddio; gallai hynny gynyddu cyfradd gwallau'r data, a methu â bodloni amcanion polisi.

9. Er enghraifft, mae ymgyrchoedd cyfathrebu wedi cael eu diystyru fel opsiwn addas o ystyried y diffyg cydymffurfio eang, ac yn sgil y gost i rai busnesau newid i gofnodi data yn ddigidol, mae ymgyrchoedd cyfathrebu yn unig yn annhebygol o gael yr effaith a ddymunir o beri i bob busnes gofnodi eu symudiadau/trosglwyddiadau gwastraff yn ddigidol. Byddai i opsiynau nad ydynt yn rheoleiddiol fod yn effeithiol yn dibynnu ar bob busnes yn cofnodi eu data yn wirfoddol mewn fformat digidol. Mae yna eisoes nifer o systemau TG gwirfoddol ar gael i gofnodi data gwastraff, ond nid oes digon o ddefnydd o'r systemau hyn. Hyd yn oed pe bai nifer sylweddol o fusnesau yn cydymffurfio'n wirfoddol â chofnodi digidol (a chodau adnabod unigryw) ond nifer gymharol fach ddim yn gwneud hynny, yna byddai'r system gyfan yn cael ei thanseilio a byddai'r buddion posibl i fusnesau, y llywodraeth a'r rheoleiddwyr yn dirywio'n gyflym. Mae hynny oherwydd y byddai diffyg cydymffurfio gan nifer fach o weithredwyr yn creu 'toriadau' mewn data a fyddai'n rhwystro defnyddioldeb y set ddata. Yn ogystal, mae diffyg cydymffurfio yn fwy tebygol o du gweithredwyr anghyfreithlon sy'n cael eu hysgogi gan fuddion preifat canfyddedig gweithgarwch anghyfreithlon (osgoi costau gwaredu a thrin cyfreithlon, e.e. treth tirlenwi). Heb i'r gweithredwyr hyn gyfrannu data, ni fydd mentrau gwirfoddol yn gallu cyflawni un o'r prif

amcanion o dracio gwastraff – lleihau troseddu.

**10.** Mae hyn yn tynnu sylw at y methiant cydlyn sylfaenol yn y sector, lle mae cyfranogiad gwirfoddol yn dibynnu ar ymdrech gyffredin, ond prin yw'r cymhelliant i gyfranogwyr unigol gydymffurfio oni bai bod eraill yn gwneud yr un peth. Heb ofynion gorfodol, mae gweithredwyr cyfreithlon yn talu costau cyfranogiad tra bod gweithredwyr anghyfreithlon neu weithredwyr gyda diffyg diddordeb yn gallu manteisio ar wendidau'r system, gan fanteisio ar arolygiaeth wael heb gyfrannu data.

**11.** Ystyriwyd rhestr hir o opsiynau posibl yn erbyn 6 ffactor llwyddiant hanfodol (cyflawni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, fforddiadwyedd, effeithiolrwydd data a gasglwyd, baich ar ddiwydiant, y gallu i'w gyflawni, ac argaeledd cyflenwyr).

**12.** Yn ogystal â'r llinell sylfaen, daeth dau gynnig rheoleiddiol i'r rhestr fer, a chyflwynir y tri opsiwn yn yr Asesiad Effaith hwn. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y tri opsiwn.

**Tabl 1 – Crynodeb o'r opsiynau tracio gwastraff**

|                                             | Gwastraff o fewn cwrdd y newid rheoleiddiol                               | System ganolog ar gyfer cofnodion digidol<br><b>Gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus</b>                | System ganolog ar gyfer cofnodion digidol<br><b>gwastraff nad yw'n beryglus</b>                                                                      |
|---------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Opsiwn 1 (llinell sylfaen)                  | <b>Gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn unig</b> | <b>Oes</b> – Trafodion gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus i'w cofnodi'n ddigidol mewn system ganolog. | <b>Nac oes</b> – Dim newid i gofnodi gwastraff nad yw'n beryglus.                                                                                    |
| Opsiwn 2 (a ddarperir gan y Rheoliadau hyn) | <b>Pob gwastraff</b>                                                      | <b>Oes</b> – Trafodion gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus i'w cofnodi'n ddigidol mewn system ganolog. | <b>OES</b> – Bydd angen cofnodi trafodion gwastraff nad yw'n beryglus yn ddigidol, ond dim <b>ond gan dderbynwyr gwastraff (is-set o'r farchnad)</b> |
| Opsiwn 3 (opsiwn hirdymor a ffefrir)        | <b>Pob gwastraff</b>                                                      | <b>Oes</b> – Trafodion gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus i'w cofnodi'n ddigidol mewn system ganolog. | <b>Oes</b> – Trafodion gwastraff nad yw'n beryglus i'w cofnodi'n ddigidol mewn gwasanaeth tracio canolog.                                            |

### 13. Opsiwn 1: Gwneud y lleiafswm (llinell sylfaen)

Opsiwn 'gwneud y lleiafswm' yw'r llinell sylfaen.

**13.2** Yn absenoldeb DWTS canolog ar gyfer pob gwastraff, bydd yn ofynnol i'r pedair gwlad fodloni **gofynion cyfreithiol ar gyfer olrhain gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs)<sup>11</sup> yn ddigidol ac olrhain gwastraff peryglus** er mwyn bodloni ymrwymadau<sup>12</sup> Economi Gylchol. Felly, bydd angen i'r pedair gwlad ddatblygu gwasanaeth TG newydd, i alluogi'r holl gofnodion o symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff sy'n cynnwys POPs i gael eu darparu i reoleiddwyr trwy gofrestrfa electronig gydgyssylltiedig. Mae'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth digidol i dracio gwastraff peryglus a llygryddion organig parhaus wedi'u cipio yn y senario sylfaenol, ac mae costau ar gyfer opsiynau eraill yn ychwanegol at y gost sylfaenol.

**13.3** Mae'n angenrheidiol cipio'r costau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a rhedeg y gwasanaeth TG newydd i dracio gwastraff peryglus a gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus gan ei fod yn ofyniad cyfreithiol nad yw wedi'i fodloni eto.

**Tabl 2 – Newidiadau gofynnol i wasanaethau TG yn y llinell sylfaen**

|                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (TG newydd) | Adeiladu gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol gorfodol a fydd yn tracio gwastraff peryglus (a deunyddiau a chynnyrch a gynhyrchir o wastraff peryglus) a thracio gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (a allai fod yn wastraff peryglus neu'n wastraff nad yw'n beryglus). Mae hyn yn ofynnol oherwydd y rheoliadau llygryddion organig parhaus newydd <sup>13</sup> sy'n nodi y bydd angen gallu tracio gwastraff llygryddion organig parhaus yn ddigidol ac oherwydd ymrwymadau'r Economi Gylchol <sup>14</sup> . |
|-------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**13.4** Disgwylir i'r systemau TG newydd hyn gael eu hadeiladu dros gyfnod o 3 blynedd (2026-2028) a'u cynllunio i fodloni gofynion rheoleiddiol cyfredol a

<sup>11</sup>Rheoliad (EU) Rhif 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar lygryddion organig parhaus, fel y mae'n rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Pontio ac ar ôl hynny, ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

<sup>12</sup>

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/904511/circular-economy-](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/904511/circular-economy-)

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/904511/circular-economy-policy-statement-annex2.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/904511/circular-economy-policy-statement-annex2.pdf)(tudalen 13).

<sup>13</sup>Rheoliad (EU) Rhif 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar lygryddion organig parhaus, fel y mae'n rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Pontio ac ar ôl hynny, ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

<sup>14</sup> [Annex II Regulatory Triage Assessment](#) (tudalen 13)

phosibl i'r dyfodol. Disgwylir i dracio gwastraff peryglus yn ddigidol arwain at rai buddion o'i gymharu â'r gwasanaethau cyfredol sy'n cael eu defnyddio i gipio data gwastraff peryglus (fel arfer dogfennau Excel ac xml sy'n cael eu hanfon ar e-bost).

Fodd bynnag, ni fydd gwasanaeth tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus newydd yn tracio a monitro **pob gwastraff o'r cynhyrchu i'r gwaredu** yn effeithiol, gan y bydd bylchau sylweddol yn y math o wastraff sy'n cael eu cwmpasu gan y gwasanaethau hyn, yn fwyaf nodedig cyfran fawr o wastraff masnachol a diwydiannol nad yw'n beryglus sy'n cael ei allforio o dan reolaethau rhestr werdd<sup>15</sup>. O ganlyniad, ni fydd y gwasanaethau TG newydd hyn yn darparu'r un buddion ag sydd i'w ddisgwyl o wasanaeth tracio gwastraff canolog ar gyfer pob gwastraff.

#### **14. Opsiwn 2 (a ddarperir gan y Rheoliadau hyn): Gweithredu gwasanaeth tracio gwastraff sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob safle derbyn trwyddedig gyflwyno data yn electronig ar bob gwastraff a dderbynnir yn eu safleoedd bron iawn fel y mae'n eu cyrraedd**

**14.1** O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i bawb sy'n ymwneud â gweithredu safle derbyn gwastraff trwyddedig gofnodi symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff unigol i'w safle gwastraff gan ddefnyddio'r gwasanaeth digidol arfaethedig. Byddai gan fusnesau ddau opsiwn o ran sut i gofnodi'r symudiadau gwastraff hyn a byddai'n ofynnol iddynt gofnodi symudiadau ar y gwasanaeth o fewn dau ddiwrnod gwaith i hynny ddiwydd.

**14.2** Byddai busnesau'n gallu integreiddio'n uniongyrchol â rhyngwyneb rhaglennu'r rhaglen (API) i lanlwytho data o'u meddalwedd data gwastraff eu hunain. Ar ôl cofrestru trwy borth cynefino tracio gwastraff yn ddigidol, darperir eu manylion API iddynt, a fydd yn cael eu hychwanegu at eu meddalwedd i'w dilysu'n ddiogel i anfon data gwastraff (gwthio) neu ddiweddarau (gosod) cofnodion gwastraff os oes angen eu newid. Byddai hyn yn golygu, unwaith y bydd busnesau yn cofnodi symudiadau gwastraff ar eu systemau mewnol eu hunain, y byddai modd trosglwyddo'r wybodaeth i'r gwasanaeth tracio gwastraff ar unwaith.

**14.3** Ar gyfer busnesau heb eu meddalwedd rheoli gwastraff eu hunain neu fusnesau sydd wedi dewis peidio â buddsoddi mewn meddalwedd newydd ar gyfer cydymffurfio ar y dechrau, byddai opsiwn dros dro 12 mis ar gael sy'n seiliedig ar opsiwn cyflwyno data eilaidd. Byddent yn mewnbynnu data yn uniongyrchol i ddull cyflwyno eilaidd (neu'n copïo data o'u cofnodion eu hunain). Byddai wedyn yn ofynnol i'r defnyddwyr hyn symud i'r opsiwn meddalwedd ar ôl i'r opsiwn eilaidd gael ei ddileu'n raddol.

**14.4** Dechreuodd profion beta preifat gyda gwerthwyr a datblygwyr meddalwedd gwastraff ym mis Tachwedd 2025 gyda derbynyddion gwastraff yn dilyn unwaith y bydd y cysylltiadau API hynny â'u meddalwedd ar waith.

---

<sup>15</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru / Canllawiau ar fewnforio ac allforio gwastraff

Bydd yr opsiwn cyflwyno data eilaidd dros dro hefyd yn cael ei brofi gyda defnyddwyr cyn ei lansio. Disgwylir y bydd cofrestru ar gyfer profion beta cyhoeddus y gwasanaeth tracio gwastraff yn dechrau yn ystod gwanwyn 2026 a bydd ei ddefnydd yn orfodol ar gyfer safleoedd derbyn trwyddedig o fis Hydref 2026. Bydd yn ofynnol i fusnesau dalu tâl gwasanaeth tuag at gostau cynnal a chadw ac adeiladu'r gwasanaeth.

**14.5** Byddai Opsiwn 2 yn cyflawni'r deilliannau polisi arfaethedig yn rhannol yn unig. O dan yr opsiwn hwn, byddai data yn cael ei gyflwyno gan **safleoedd derbyn gwastraff trwyddedig** yn unig, megis safleoedd tirlenwi, cyfleusterau trin a chanolfannau ailgylchu. Mae hyn yn golygu y byddai gwybodaeth yn cael ei chipio ar bwynt olaf y daith wastraff yn unig, pan fydd gwastraff yn cael ei dderbyn i'w drin neu ei waredu.

**14.6** Ni fyddai camau cynharach y gadwyn wastraff, lle mae gwastraff yn cael ei **gynhyrchu, ei gasglu a'i gludo** gan gludwyr neu ei drefnu gan froceriaid a delwyr, yn cael eu cofnodi'n ddigidol. O ganlyniad, byddai symudiadau gwastraff rhwng cynhyrchwyr a safleoedd derbyn yn parhau i fod y tu hwnt i olwg rheoleiddwyr i raddau helaeth.

**14.7** Mae'r cwmpas cyfyngedig hwn yn golygu y byddai Opsiwn 2 yn gwella cysondeb data ar ddiwedd y gadwyn wastraff ond ni fyddai'n darparu gwelededd o ddechrau i ddiwedd y gadwyn symud gwastraff. O ganlyniad, byddai'n llai effeithiol wrth nodi gweithgarwch anghyfreithlon yn gynharach yn y gadwyn, lleihau troseddau gwastraff, neu gyflawni'r effeithlonrwydd adnoddau ehangach a buddion cystadleuaeth deg sydd i'w disgwyl o dan Opsiwn 3, yr opsiwn a ffefrir.

## **15. Opsiwn 3 (yr opsiwn hirdymor a ffefrir): Darparu DWTS canolog a gorfodi ei ddefnyddio<sup>16</sup>**

**15.1** O dan Opsiwn 3 bydd DWTS gorfodol ar gyfer yr holl wastraff yn cael ei greu. Bydd yn darparu modd i fusnesau gofnodi'r holl symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff trwy un gwasanaeth canolog a bydd yn galluogi'r DU i dracio gwastraff yn effeithiol trwy'r economi.

**15.2** Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r rheoliadau yn cael eu gweithredu'n raddol. Yn y cam cyntaf, byddai'n ofynnol i safleoedd derbyn gwastraff trwyddedig ddechrau cyflwyno data gwastraff yn gyntaf, o fis Hydref 2026. Yn yr ail gam, y mae disgwyl iddo gychwyn ym mis Hydref 2027, byddai'r holl gyfranogwyr eraill yn y gadwyn wastraff (cludwyr, broceriaid a delwyr), yn cynefino, a byddai'n ofynnol iddynt gyflwyno gwybodaeth am symudiadau a thrin gwastraff.

---

<sup>16</sup> Mae mynnu bod cofnodion digidol o bob symudiad a throsglwyddiad gwastraff yn cael eu cadw a'u cyflwyno gan fusnesau perthnasol yn senario amgen i'r llinell sylfaen – gwasanaeth tracio gwastraff newydd ar gyfer **pob gwastraff**, yn hytrach na **gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus** yn unig.

**15.3** Mae'r dull graddol hwn yn caniatáu i'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol gael ei gyflwyno fesul cam, gan gefnogi parodrwydd gweithredol ar gyfer rheoleiddwyr a'r diwydiant wrth symud yn raddol tuag at gwmpasu'r gadwyn wastraff yn llawn o'i dechrau i'w diwedd.

**15.4** Bydd y gwasanaeth tracio gwastraff yn wasanaeth TG a fydd yn disodli'r angen presennol am nodiadau trosglwyddo gwastraff ysgrifenedig (ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus), ffurflenni derbynwyr (ar gyfer gwastraff peryglus), ffurflenni safleoedd gwastraff a ffurflenni Atodiad VII ar gyfer mewnfario ac allfario gwastraff ar y rhestr werdd. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddatblygu gan ystyried y gofyniad i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth am wastraff peryglus a'r gofyniad i dracio gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus, er mwyn sicrhau bod gofynion y Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus ac ymrwymïadau'r economi gylchol yn cael eu bodloni.

**15.5** Er nad yw manylion y datrysiad digidol ar gyfer cam 2 wedi'u cadarnhau eto, at ddibenion y dadansoddiad hwn tybir y bydd opsiwn API uniongyrchol o feddalwedd ac opsiwn wrth gefn dros dro am 12 mis, lle nad yw'n ofynnol i fusnesau feddu ar feddalwedd rheoli gwastraff presennol.

**15.6** Bydd busnesau yn ariannol gyfrifol am eu costau cydymffurfio eu hunain ac am gyfrannu at gostau parhaus gweithredu'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys talu tâl gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw a rhedeg y system ganolog, ochr yn ochr ag unrhyw gostau a ddaw i ran y busnes wrth brynu neu uwchraddio meddalwedd rheoli gwastraff lle nad oes systemau addas eisoes ar waith.

**15.7** Yn wahanol i Opsiwn 2, mae Opsiwn 3 yn cyflwyno system tracio ddigidol lawn o'r dechrau i'r diwedd sy'n cwmpasu'r holl gyfranogwyr sydd ynghlwm wrth symud y gwastraff, gan alluogi arolygiaeth hygyrch, gorfodi mwy effeithiol, a set ddata gynhwysfawr i gefnogi amcanion economi gylchol. Mae disgwyliad y bydd troseddau gwastraff yn gostwng oherwydd hyn hefyd. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng derbynwyr yn unig (Opsiwn 2), a phob cwmni gwastraff (Opsiwn 3), yn esbonio pam mae Opsiwn 2 yn darparu buddion cyfyngedig, ac mae angen Opsiwn 3 i gyflawni'r set lawn o ddeilliannau polisi.

## **16. Crynodeb o'r Costau a'r Buddion**

**16.1** Pan nad oes data yng Nghymru yn unig ar gael, mae ffigurau ledled y DU wedi'u pro-raddio i gyfrifo ffigurau cyfatebol i Gymru gan ddefnyddio poblogaeth, nifer y safleoedd a ganiateir, nifer y safleoedd peryglus a chlodwyr, a broceriaid a delwyr. Defnyddiwyd ffigurau a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull hwn ar y cyd â dadansoddiad a gynhaliwyd gan DEFRA.

**16.2** Rydym wedi defnyddio cyfnod gwerthuso o 15 mlynedd yn hytrach na'r 10 mlynedd safonol. Rydym yn disgwyl y bydd oes hir i'r system tracio gwastraff – hirach na systemau TG traddodiadol 'parod' neu'r rhai hynny sy'n seiliedig ar galedwedd neu feddalwedd bwrpasol. Bydd y gwasanaeth

tracio gwastraff yn cael ei ddatblygu yn unol ag Egwyddorion Safonau Agored Swyddfa'r Cabinet, sy'n golygu y bydd y system yn cael ei hadeiladu i gefnogi hyblygrwydd a newid yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y costau cyfalaf yn y blynyddoedd cynnar, ond costau cynnal a chadw sy'n rhedeg dros y cyfnod gwerthuso 15 mlynedd. Mae'r system hefyd yn cael ei datblygu yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr trwy ymchwil defnyddwyr, a bydd yr anghenion hyn yn parhau i gael eu hadolygu pan fydd y system yn cael ei defnyddio, gyda hynny'n gymorth i hyrwyddo hirhoedledd y system<sup>17</sup>.

**16.3** Yn 2025, newidiwyd cwrddpas y prosiect tracio gwastraff yn ddigidol a phenodwyd cyflenwr newydd. Nid yw'r costau a'r buddion a gododd cyn hyn wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad gan eu bod yn gostau suddedig. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer gwastraff llygryddion organig parhaus a gwastraff peryglus, ac mae hynny'n cael ei ystyried yn Opsiwn 1 a'i ddefnyddio fel llinell sylfaen i adlewyrchu'r ymrwymadau hyn. Mae Opsiwn 2 a 3 yn cynrychioli costau ar gyfer yr opsiynau hynny ar ben y costau sylfaenol er mwyn sicrhau bod newidiadau ymylol yn erbyn y llinell sylfaen yn cael eu nodi.

**Tabl 3: Costau a Buddion yr holl opsiynau**, gyda gostyngiad a heb ostyngiad £m, prisiau 2026. Mae'r holl ffigurau ar gyfer Opsiynau 2 a 3 yn gymharol â'r llinell sylfaen

| Y gost              |       | Opsiwn 1 Llinell sylfaen (heb ostyngiad) | Opsiwn 1 Llinell sylfaen (gyda gostyngiad) | Opsiwn 2 (heb ostyngiad) | Opsiwn 2 (gyda gostyngiad) | Opsiwn 3 (heb ostyngiad) | Opsiwn 3 (gyda gostyngiad) |
|---------------------|-------|------------------------------------------|--------------------------------------------|--------------------------|----------------------------|--------------------------|----------------------------|
| CDEL                | Y DU  | 2.63                                     | 2.60                                       | 1.89                     | 1.92                       | 10.51                    | 10.39                      |
|                     | Cymru | 0.12                                     | 0.12                                       | 0.09                     | 0.09                       | 0.49                     | 0.48                       |
| RDEL                | Y DU  | 6.11                                     | 4.86                                       | 8.06                     | 6.32                       | 24.46                    | 21.29                      |
|                     | Cymru | 0.28                                     | 0.23                                       | 0.37                     | 0.29                       | 1.13                     | 0.99                       |
| Cost Tâl Gwasanaeth | Y DU  |                                          |                                            | 16.73                    | 13.46                      | 38.25                    | 30.70                      |

<sup>17</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/open-standards-principles/open-standards-principles>

|                                       |       |       |       |        |       |        |        |
|---------------------------------------|-------|-------|-------|--------|-------|--------|--------|
|                                       | Cymru |       |       | 1.06   | 0.86  | 2.02   | 1.62   |
| Costau pontio                         | Y DU  | 5.83  | 5.49  | 2.09   | 2.03  | 22.78  | 21.42  |
|                                       | Cymru | 0.38  | 0.36  | 0.13   | 0.13  | 1.20   | 1.13   |
| Costau<br>Ymglyfarwyddo i<br>Fusnesau | Y DU  | 0.55  | 0.54  |        |       |        |        |
|                                       | Cymru | 0.04  | 0.04  |        |       |        |        |
| Costau<br>meddalwedd                  | Y DU  | 19.73 | 15.47 | 74.05  | 57.90 | 743.67 | 571.53 |
|                                       | Cymru | 1.28  | 1.01  | 4.71   | 3.68  | 39.21  | 30.13  |
| <b>CYFANSWM<br/>£m</b>                | Y DU  | 34.85 | 28.96 | 102.82 | 81.63 | 839.66 | 655.33 |
|                                       | Cymru | 1.70  | 1.40  | 6.37   | 5.05  | 44.04  | 34.35  |

*CDEL (Cyfalaf) ac RDEL (Adnoddau) yn gostau i'r llywodraeth. Pob cost arall i fusnesau. Defnyddiwyd tuedd optimistaeth o 15% gyda'r holl ffigurau heblaw taliadau gwasanaeth.*

| Mantais                                                                                               |       | Opsiwn 1<br>(heb<br>ostyngiad) | Opsiwn 1<br>(gyda<br>gostyngiad) | Opsiwn 2<br>(heb<br>ostyngiad) | Opsiwn 2<br>(gyda<br>gostyngiad) | Opsiwn 3<br>(heb<br>ostyngiad) | Opsiwn 3<br>(gyda<br>gostyngiad) |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|--------------------------------|----------------------------------|--------------------------------|----------------------------------|--------------------------------|----------------------------------|
| Budd o leihau troseddu<br>(busnes)                                                                    | Y DU  |                                |                                  |                                |                                  | 462.27                         | 353.96                           |
|                                                                                                       | Cymru |                                |                                  |                                |                                  | 24.37                          | 18.66                            |
| Arbedion amser i<br>fusnesau wrth beidio â<br>gorfod cyflwyno<br>ffurflenni (safleoedd<br>esempt)     | Y DU  |                                |                                  |                                |                                  | 0.99                           | 0.74                             |
|                                                                                                       | Cymru |                                |                                  |                                |                                  | 0.00                           | 0.00                             |
| Arbedion amser i<br>fusnesau wrth beidio â<br>gorfod cyflwyno<br>ffurflenni (safleoedd<br>trwyddedig) | Y DU  |                                |                                  |                                |                                  | 130.52                         | 97.70                            |
|                                                                                                       | Cymru |                                |                                  |                                |                                  | 8.30                           | 6.21                             |
| Buddion o leihau<br>troseddau gwastraff<br>(Llywodraeth)                                              | Y DU  |                                |                                  |                                |                                  | 456.27                         | 349.37                           |

|                                                           |       |  |  |       |       |         |        |
|-----------------------------------------------------------|-------|--|--|-------|-------|---------|--------|
|                                                           | Cymru |  |  |       |       | 21.15   | 16.19  |
| Incwm tâl gwasanaeth<br>(Llywodraeth)                     | Y DU  |  |  | 16.73 | 13.46 | 38.25   | 30.70  |
|                                                           | Cymru |  |  | 1.06  | 0.86  | 2.02    | 1.62   |
| Buddion amgylcheddol<br>o leihau<br>troseddu/annymunoldeb | Y DU  |  |  |       |       | 17.26   | 13.22  |
|                                                           | Cymru |  |  |       |       | 0.80    | 0.61   |
| Cyfanswm Terfynol<br>£m                                   | Y DU  |  |  | 16.73 | 13.46 | 1105.55 | 845.68 |
|                                                           | Cymru |  |  | 1.06  | 0.86  | 56.64   | 43.30  |

**17.** Nid oes unrhyw fuddion ariannol ar gyfer Opsiynau 1 a 2 costau taliadau gwasanaeth yn cael eu hystyried fel trosglwyddiad) oherwydd bod y ddau yn darparu gwelliannau cyfyngedig yn unig na ellir eu meintioli'n gadarn. Mae Opsiwn 1 yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol i dracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus, sy'n effeithio ar is-set fach o weithredwyr ac yn darparu newid bach iawn i droseddau gwastraff neu effeithlonrwydd cyffredinol. Yn yr un modd, mae Opsiwn 2 yn cipio data o safleoedd derbyn trwyddedig yn unig, gan adael bylchau mawr yn y gadwyn wastraff a chyfyngu ar yr effaith ar leihau gweithgarwch anghyfreithlon neu gynhyrchu arbedion mesuradwy. Mae rheoleiddwyr wedi datgan na fyddai ffurflenni chwarterol gorfodol yn cael eu dileu ar gyfer Opsiwn 2 gan fod ffurflenni gwastraff ar hyn o bryd yn gofyn am wybodaeth am fewnbynnau gwastraff i safleoedd ac allbynnau gwastraff o safleoedd. Dim ond hanner y data sydd ei angen fyddai Opsiwn 2 yn ei ddarparu felly byddai ffurflenni gwastraff yn debygol o barhau.

## **18. Gwerth Presennol Net a Chyfradd Cost a Budd**

**18.1** Mae'r tabl isod yn dangos y Gwerth Presennol Net (NPV) a'r Gymhareb Cost a Budd (BCR) ar gyfer opsiynau 2 a 3 wedi'u mesur yn erbyn y llinell sylfaen. Mae gan ein dewis a ffeirir Opsiwn hirdymor 3 NPV o 8.95 miliwn a BCR o 1.26. Cydnabyddir bod yr NPV ar gyfer Opsiwn 2 (h.y. y canlyniad i'w

gyflawni gan y darn penodol hwn o ddeddfwriaeth) yn negyddol, ond mae'n gam angenrheidiol i Opsiwn 3 sydd â NPV cadarnhaol.

|     | Opsiwn 2<br>(gyda gostyngiad) | Opsiwn 3<br>(gyda gostyngiad) |
|-----|-------------------------------|-------------------------------|
| NPV | £-4.19<br>miliwn              | £8.95<br>miliwn               |
| BCR | 0.17                          | 1.26                          |

## **19. Buddion na phennwyd eu gwerth**

**19.1** Mae'r buddion na phennwyd eu gwerth sydd ynghlwm wrth dracio gwastraff yn ddigidol yn cynnwys gwell ansawdd data, prydlondeb a hygyrchedd, gan alluogi rheoleiddwyr i dargedu gorfodi yn fwy effeithiol a lleihau risgiau ynghylch cydymffurfedd. Mae'r system wedi'i chynllunio i symleiddio prosesau, dileu aneffeithlonrwydd a lleihau beichiau gweinyddol i fusnesau a'r llywodraeth, gan gefnogi datblygiad polisi a chynllunio seilwaith gwell. Bydd hefyd yn gwella tryloywder ar draws y gadwyn wastraff, yn cryfhau tegwch y farchnad trwy leihau cyfleoedd i weithredwyr anghyfreithlon, ac yn gweithredu fel galluogwr sylfaenol ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol fel Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a mentrau'r economi gylchol. Mae buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, adnoddau mwy effeithlon, a mwy o ddiogelwch i ddeunyddiau crai hanfodol, ynghyd ag effeithiau cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd a lles cymunedol trwy leihau troseddau gwastraff ac effeithiau annymunoldeb cysylltiedig.

## **20. Costau na phennwyd eu gwerth**

**20.1** Mae costau na phennwyd eu gwerth ynghlwm wrth Opsiynau 2 a 3 yn ymwneud yn bennaf â monitro cydymffurfedd a beichiau pontio ychwanegol. Gallai rheoleiddwyr ysgwyddo costau ychwanegol wrth oruchwylio cydymffurfedd â gofynion digidol newydd, ond gellid eu hadennill trwy ffioedd ond mae hyn yn parhau i fod yn ansicr. Gallai busnesau, yn enwedig gweithredwyr bach a micro, wynebu beichiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd wedi eu costio, megis rheoli pryderon am ddiogelwch data.

## **Opsiwn 1: Asesiad llinell sylfaen**

## **21. Nodyn ar Gostau'r Llinell Sylfaen**

**21.1** Mae costau ynghlwm wrth y llinell sylfaen, oherwydd mae'r llywodraeth eisoes wedi ymrwymo'n gyfreithiol i gyflwyno tracio digidol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs). Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn, mae angen adeiladu system TG newydd, a chynefino busnesau sy'n cael eu heffeithio, gan gynnwys ymgyfarwyddo a chostau rhedeg. O ganlyniad, mae'r llinell sylfaen yn adlewyrchu'r isafswm cost o gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, yn hytrach na senario "gwneud dim", na fyddai'n cael ei chaniatáu yn gyfreithiol. Mae costau ar gyfer Opsiynau 2 a 3 yn cyfrif am y costau ychwanegol i fusnesau ar ben y llinell sylfaen.

## **22. Costau datblygu a sefydlu TG (wedi'u hysgwyddo gan y llywodraeth)**

**22.1** Bydd costau yn y senario sylfaenol sy'n gysylltiedig ag adeiladu system TG newydd; system Orlhain Gwastraff newydd ar gyfer Gwastraff Peryglus a Gwastraff POPs.

**22.2** Amcangyfrifir bod cost adeiladu'r gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn gost CDEL untro o £2.6m (Cymru £0.12m) a chost RDEL parhaus o £6.1m (Cymru £0.28m) dros y cyfnod gwerthuso. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddosrannu costau adeiladu'r gwasanaeth tracio gwastraff llawn ar gyfer **pob gwastraff** – gan gynnwys datblygu TG, sefydlu'r system a chostau integreiddio asiantaethau. Rydym yn rhagweld y bydd cost yr opsiwn hwn yn llawer is na'r costau ar gyfer yr opsiwn hirdymor a ffefrir oherwydd byddwn yn defnyddio platfformau presennol fel ffurflenni Gov.UK ac yn eu haddasu, gyda hynny'n golygu y byddai opsiwn sylfaenol yn costio llawer llai na'r opsiwn a ffefrir. Ar sail sgysiau gyda'r tîm darparu gwasanaeth, cost ddisgwyliedig yr opsiwn hwn fyddai 20% o gost tracio gwastraff yn ddigidol, gan gynnwys cyfrif unrhyw wariant wrth gefn.

**22.3** Defnyddiwyd tuedd optimistiaeth o 15% ar gyfer amcangyfrif costau yn y llinell sylfaen. Mae hyn er mwyn adlewyrchu ansicrwydd ynghylch costau cyflenwi, ac i gyfrif am unrhyw danamcangyfrif. Mae hyn yn gyson ac ar waith ar draws yr asesiad effaith cyfan.

Mae cyfanswm costau sylfaenol datblygu a gweithredu TG wedi'u crynhoi yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Crynodeb o gostau sylfaenol datblygu TG y DU gyda gostyngiad a heb ostyngiad (i'r llywodraeth), £m, prisiau 2026**

|                                                                                                                    | 2026 | 2027 | 2028.00 | 2029–40 | Cyfanswm      | Cyfanswm     |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------|------|---------|---------|---------------|--------------|
| System tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (newydd), CDEL (Adnoddau) gyda gostyngiad | 1.75 | 0.85 | 0.00    | 0.00    | Y DU<br>Cymru | 2.60<br>0.12 |
| System tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (newydd), CDEL (Adnoddau) heb ostyngiad   | 1.75 | 0.88 | 0.00    | 0.00    | Y DU<br>Cymru | 2.63<br>0.12 |
| System tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (newydd), RDEL (Adnoddau) gyda gostyngiad | 0.41 | 0.39 | 0.38    | 3.68    | Y DU<br>Cymru | 4.86<br>0.23 |
| System tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (newydd), RDEL (Adnoddau) heb ostyngiad   | 0.41 | 0.41 | 0.41    | 4.89    | Y DU<br>Cymru | 6.11<br>0.28 |

## 23. Y Gost i Fusnesau

### Costau pontio – gwasanaeth Tracio Gwastraff Peryglus a gwastraff POPs yn Ddigidol (i fusnesau)

**23.1** Byddai'r gwasanaeth hwn yn ei gwneud yn ofynnol i anfonwyr gwastraff peryglus gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn eu ffurflenni gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus trwy wasanaeth TG wedi'i ddiweddarau. Bydd y costau yn is na chostau'r opsiwn a ffefrir, ac yn seiliedig ar amcangyfrif fod 20% o'r safleoedd dan sylw yn yr opsiwn hirdymor a ffefrir o fewn cwmpas Opsiwn 1.

**23.2** Rydym wedi rhannu'r costau pontio i fusnes yn gostau ymgyfarwyddo a chostau pontio i weithredu'r dull adrodd a'r feddalwedd newydd. Rhagwelir y bydd ymgyfarwyddo dros gyfnod o ddwy flynedd (2026-2027) yn costio £0.5m (Cymru £0.04m) a'r costau pontio yn £5.8m (Cymru £0.38m) (2026-2030).

**Tabl 5: Crynodeb o'r costau pontio sylfaenol (ar gyfer busnesau), £m, 2026,**

|                                      | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031–40 |       | Cyfanswm    |
|--------------------------------------|------|------|------|------|------|---------|-------|-------------|
| Cost Ymgwyfarwyddo – heb ostyngiad   | 0.28 | 0.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00    | Y DU  | <b>0.55</b> |
|                                      |      |      |      |      |      |         | Cymru | <b>0.04</b> |
| Cost Ymgwyfarwyddo – gyda gostyngiad | 0.28 | 0.27 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00    | Y DU  | <b>0.54</b> |
|                                      |      |      |      |      |      |         | Cymru | <b>0.04</b> |
| Cost Pontio – heb ostyngiad          | 0.28 | 2.88 | 1.15 | 0.89 | 0.63 | 0.00    | Y DU  | <b>5.83</b> |
|                                      |      |      |      |      |      |         | Cymru | <b>0.38</b> |
| Cost Pontio – gyda gostyngiad        | 0.28 | 2.78 | 1.08 | 0.80 | 0.55 | 0.00    | Y DU  | <b>5.49</b> |
|                                      |      |      |      |      |      |         | Cymru | <b>0.36</b> |

#### Costau rhedeg a rheoli gwasanaethau TG (wedi'i ysgwyddo gan fusnesau)

**23.3** Bydd yn rhaid i fusnesau ysgwyddo costau cynnal a chadw a rhedeg y gwasanaeth TG newydd er mwyn caniatáu iddynt gofnodi gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Cyfanswm y gost yw £19.73 miliwn (£1.28 miliwn yng Nghymru) dros y cyfnod gwerthuso (£15.47 miliwn (£1.01 miliwn yng Nghymru) gyda gostyngiad).

### **24. Manteision**

**24.1** Mae'r ymrwymiad rheoleiddiol i weithredu tracio digidol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus wedi golygu bod senario sylfaenol yr asesiad effaith hwn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol. Mae'n bwysig felly ein bod yn deall y buddion ynghlwm wrth weithredu system tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus cyn cyflwyno'r buddion ychwanegol ynghlwm wrth weithredu system tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff.

**24.2** Er bod Opsiwn 1 (tracio digidol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn unig) yn rhannu rhai mecanweithiau lefel uchel ag Opsiynau 2 a 3, ni ellir trin y buddion o dan Opsiwn 1 fel is-set gymesur o'r rhai sy'n cael eu rhagweld ar gyfer tracio gwastraff ehangach.

**24.3** Mae hyn oherwydd bod y buddion ariannol yn Opsiwn 3 yn cael eu sbarduno'n bennaf gan welededd o'r dechrau i'r diwedd ar hyd y gadwyn wastraff gyfan ac ar draws pob math o wastraff, sy'n galluogi lleihau troseddau gwastraff (camddisgrifio, safleoedd anghyfreithlon, tipio anghyfreithlon ac allforion anghyfreithlon) yn systematig. Mae'r effeithiau hyn yn dibynnu ar gysylltu data gan gynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid, delwyr a derbynwyr, a fydd yn caniatáu i reoleiddwyr ganfod anghysondebau, tracio diffyg cydymffurfio ac atal troseddau gwastraff ar

sawl pwynt yn y gadwyn.

**24.4** Ar y llaw arall, mae gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn cynrychioli is-set fach o gyfanswm y gwastraff, lle mae cydymffurfio sylfaenol eisoes yn gymharol uchel ac mae gweithgarwch gorfodi eisoes wedi'i dargedu (o'i gymharu â phob gwastraff). Nid yw cyflwyno tracio digidol ar gyfer yr is-set hon yn unig yn tarfu i'r un graddau ar droseddau gwastraff a ffactorau eraill sy'n arwain at y buddion a welir yn Opsiwn 3.

- Nid yw tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn darparu gwelededd ar gyfer llif gwastraff nad yw'n beryglus, lle mae'r rhan fwyaf o gamddisgrifio, tipio anghyfreithlon a gweithgarwch anghyfreithlon yn digwydd.
- Disgwylir i unrhyw effaith ar droseddau gwastraff neu gydymffurfedd fod yn fach, yn gyfyngedig i achosion penodol a heb fod yn digwydd ar draws y system wastraff.

**24.5** Nid oes sylfaen dystiolaeth empirig gadarn ar gyfer lleihau buddion Opsiwn 3 i gynrychioli Opsiwn 1. Byddai defnyddio cyfran syml yn peryglu gorliwio'r buddion ac ni fyddai'n ffigur cynrychioladol. Ar hyn o bryd, mae prinder data ar wastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus (e.e. faint sydd ohono) yn benodol, ac ar sut y bydd gweithredwyr a rheoleiddwyr yn newid eu hymddygiad unwaith y cyflwynir tracio digidol ar gyfer y gwastraff hwn. Heb y dystiolaeth honno, nid yw'n bosibl meintoli effeithiau'r buddion a restrir isod. Roedd y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif buddion Opsiwn 3 yn defnyddio sylfaen dystiolaeth gryfach a gwaith ymchwil yn edrych ar ymyrraeth o ran pob gwastraff.

**24.6** O ganlyniad, mae buddion Opsiwn 1 yn parhau yn ansoddol yn sgil lefel uchel o ansicrwydd.

**24.7** Bydd gweithredu gwasanaeth tracio digidol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn unig yn arwain at y canlynol:

- **Mwy o incwm i'r rheoleiddwyr** – bydd tracio digidol gorfodol ar wastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn arwain at well cydymffurfedd â'r gyfundrefn gwastraff peryglus, a chynnydd mewn incwm trwy ffioedd<sup>18</sup> yn sgil hynny. Nid yw hyn yn drosglwyddiad o fusnes i reoleiddwyr, gan ei fod yn gost yr oedd busnesau yn ei osgoi, yn anghyfreithlon, ac felly yn ei dalu'n gydsyniol bellach. Yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd, ni ddylai gorfodi gweithgarwch anghyfreithlon i gydymffurfio fod yn gost economaidd y mae modd pennu ei gwerth.
- **Mwy o dderbyniadau'r dreth tirlenwi** – Fel arfer, mae camddosbarthu gwastraff yn digwydd trwy ddisgrifio gwastraff fel gwastraff nad yw'n beryglus, yn hytrach na pheryglus, er mwyn elwa trwy dalu cyfradd is y

---

<sup>18</sup>Er y bydd system Olrhain Gwastraff ar gyfer gwastraff peryglus yn negyddu'r angen am ffurflenni traddodi **ffurfiol**, gan gasglu data trwy system electronig yn lle hynny, bydd angen i fusnesau sy'n trin gwastraff peryglus dalu am redeg y gyfundrefn gwastraff peryglus yr un fath – sy'n debygol o fod yn debyg i'r system ffioedd traddodi presennol – bydd mwy o gydymffurfio yn golygu ffioedd uwch.

dreth tirlenwi, £3 y dunnell, yn hytrach na £94.15 y dunnell<sup>19</sup>. Bydd tracio gwastraff peryglus yn ddigidol yn gwneud camddisgrifio o'r fath yn anoddach, oherwydd bydd unrhyw newidiadau i'r disgrifiad o wastraff yn cael eu hamlygu i'r rheoleiddwyr.

- **Llai o allforion gwastraff anghyfreithlon** – Mae'n anghyfreithlon allforio gwastraff peryglus i wledydd nad ydynt yn aelodau o'r OECD, ond gall allforion anghyfreithlon fod yn opsiwn deniadol i weithredwyr gwastraff, gan fod gwaredu gwastraff yn y gwledydd hynny yn tueddu i fod yn rhatach oherwydd rheoliadau amgylcheddol llai llym. Bydd tracio gwastraff peryglus yn ddigidol yn debygol o atal allforion gwastraff anghyfreithlon oherwydd bydd yn haws i'r rheoleiddwyr adnabod gweithredwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol o'r fath.
- **Gwell gwybodaeth am lif deunyddiau** – Disgwylir y bydd yn rhaid i weithredwyr trin gwastraff peryglus wneud cofnod digidol o ddeunyddiau eilaidd gwerthfawr sy'n cael eu creu wrth drin gwastraff peryglus – byddai hyn yn galluogi'r wybodaeth a gofnodwyd i fod yn fwy hygyrch i reoleiddwyr a busnesau. Yn ogystal, bydd yn haws i reoleiddwyr gael gafael ar ddata sy'n ymwneud â llif deunyddiau trawsffiniol.
- **Monitro cydymffurfio yn well** – Bydd y gwasanaeth tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus newydd yn helpu rheoleiddwyr i gadw cofnodion symlach o'r gwastraff hwnnw, gyda hynny'n hwyluso cyfeirio, ymchwil weithredol ac ymchwiliadau i weithgareddau. Bydd hefyd yn caniatáu mwy o welededd a thryloywder parthed gweithgareddau gweithredwyr o ran gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus. Gallai gwell cadw cofnodion leihau troseddau gwastraff; gwella effeithlonrwydd; llenwi bylchau data a gwella gwybodaeth am argaeledd deunyddiau gwastraff sydd wedi'u tanddefnyddio. Bydd hyn yn arwain at well defnydd o arian cyhoeddus.
- **Buddion i fusnesau o beidio â gorfod cyflwyno ffurflenni gwastraff peryglus (Cymru a Lloegr)** – Efallai y bydd arbedion amser i safleoedd gwastraff sy'n trin gwastraff peryglus gan na fydd angen cyflwyno ffurflenni traddodi mwyach. Fodd bynnag, gallai'r arbediad amser hwn gael ei negyddu gan yr amser sy'n cael ei dreulio yn cydymffurfio â'r gwasanaeth tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus newydd.
- **Arbedion costau TG i'r rheoleiddwyr** – Mae'r rheoleiddwyr yn gweithredu sawl gwasanaeth TG i reoli data a dychweliadau gwastraff peryglus. Disgwylir y bydd y gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn disodli'r gwasanaethau hyn ac o ganlyniad, bydd arbedion yn gysylltiedig â pheidio â thalu am redeg a chynnal a chadw gwasanaethau o'r fath mwyach.
- **Llai o gostau gweinyddol i reoleiddwyr** – Efallai y bydd arbedion amser i reoleiddwyr o gael cronfa ddata ganolog o ffurflenni gwastraff

<sup>19</sup>

<https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-landfill-tax-rates-from-1-april-2020/changes-to-landfill-tax-rates-from-1-april-2020#:~:text=Landfill%20Tax%20is%20charged%20on,include%20recycling%2C%20composting%20and%20recovery>. Mae'r gyfradd yr un fath yng Nghymru a'r Alban ar gyfer 2020: <https://gov.wales/landfill-disposals-tax-rates> <https://revenue.scot/taxes/scottish-landfill-tax/slft-rates-accounting-periods>

peryglus, yn hytrach nag adolygu negeseuon e-bost a thaenlenni sy'n gallu llyncu llawer o amser.

- **Gwell data ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi** – Bydd casglu data yn caniatáu i'r llywodraeth weithredu polisïau wedi'u targedu'n well ac adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau penodol.

## **Asesiad o Opsiwn 2**

### **25. Costau i Lywodraeth:**

**25.1** Y costau i'r llywodraeth o dan Opsiwn 2 yw'r costau cyfalaf a chostau parhaus adeiladu a rhedeg y gwasanaeth tracio gwastraff. Mae'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo gyntaf yn 2026, ac mae costau adeiladu cyfalaf yn dod i ben ar ôl 2027, sy'n golygu mai dim ond costau rhedeg a chynnal a chadw sydd angen eu hysgwyddo o 2028 ymlaen.

**Tabl 6: Costau CDEL a RDEL i'r llywodraeth yn ychwanegol at y llinell sylfaen (£m), prisiau 2026**

|                                     | 2026  | 2027  | 2028 | 2029 | 2030 | 2031–40 |               | Cyfanswm     |
|-------------------------------------|-------|-------|------|------|------|---------|---------------|--------------|
| CDEL                                | 2.77  | -0.88 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00    | Y DU<br>Cymru | 1.89<br>0.09 |
| RDEL                                | -0.11 | 0.71  | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 5.67    | Y DU<br>Cymru | 8.06<br>0.37 |
| CDEL<br>(Adnoddau, gyda gostyngiad) | 2.77  | -0.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00    | Y DU<br>Cymru | 1.92<br>0.09 |
| RDEL<br>(Adnoddau, gyda gostyngiad) | -0.11 | 0.68  | 0.56 | 0.54 | 0.52 | 4.13    | Y DU<br>Cymru | 6.32<br>0.29 |

**25.2** Bydd tâl gwasanaeth defnyddwyr yn talu'r holl gostau hyn, felly mae'r gost hon i'r llywodraeth yn cael ei gwrthbwysu gan incwm tâl gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r tâl gwasanaeth wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad fel cost i fusnes.

**25.3** Defnyddiwyd tuedd optimistiaeth o 15% i adlewyrchu'r risg nad yw'r amcangyfrif o'r costau yn ddigonol. Mae tuedd optimistiaeth is yn adlewyrchu'r lefel uwch o sicrwydd cost ar y cam hwn o ddatblygu polisi, gan fod dyluniad y gwasanaeth digidol wedi'i archwilio trwy ddadansoddiad manwl o'r adnoddau angenrheidiol wrth fynd trwy brofion beta preifat a sgysiau parhaus gyda darparwyr TG.

### **26. Costau i Fusnesau**

#### **Tâl Gwasanaeth – Trosglwyddo i'r Llywodraeth**

**26.1** Mae costau adeiladu a rhedeg y gwasanaeth yn cael eu hysgwyddo gan y llywodraeth i ddechrau, a'u cofnodi fel cost sector cyhoeddus (CDEL a RDEL). Mae'r costau hyn wedyn yn cael eu hadennill gan fusnesau trwy wasanaeth sy'n cael ei gofnodi fel cost i fusnes a budd cyfartal i lywodraeth: Mae'r tâl gwasanaeth yn cael ei drin fel trosglwyddiad, tra bod cost sylfaenol darparu'r gwasanaeth yn cael ei gyfrif unwaith.

**26.2** Cyfrifwyd y tâl gwasanaeth trwy rannu cyfanswm y gost adennill â'r amcangyfrif o nifer y defnyddwyr gan wasgaru'r gost dros 15 mlynedd.

**26.3** Mae costau adeiladu'r gwasanaeth yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod o 10 mlynedd, sy'n golygu bod y costau datblygu dechreuol yn cael eu hadennill yn raddol trwy'r tâl gwasanaeth. Disgwylir y bydd tâl gwasanaeth yn parhau i dalu costau cynnal a chadw'r gwasanaeth y tu hwnt i'r cyfnod amorteiddio, ond y bydd yn mynd yn llai gan y bydd yn talu'r gost o redeg y gwasanaeth yn unig yn hytrach na chostau adeiladu'r gwasanaeth hefyd. Mae hyn yn osgoi'r angen i'r rhaglen sicrhau cyllid dro ar ôl tro trwy rowndiau gwariant yn y dyfodol ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol dros y cyfnod gwerthuso llawn.

**Tabl 7: Cost tâl gwasanaeth, £m, prisiau 2026**

|                 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031–40 |               | Cyfanswm                    |
|-----------------|------|------|------|------|------|---------|---------------|-----------------------------|
| Heb ostyngiad   | 0.66 | 1.31 | 1.31 | 1.31 | 1.31 | 10.81   | Y DU<br>Cymru | 16.73 <sup>20</sup><br>1.06 |
| Gyda gostyngiad | 0.66 | 1.27 | 1.23 | 1.19 | 1.15 | 7.98    | Y DU<br>Cymru | 13.46<br>0.86               |

### Costau pontio

**26.4** O dan Opsiwn 2, bydd costau pontio i bob safle sy'n derbyn gwastraff i gofnodi eu data gwastraff ar y platfform tracio gwastraff yn ddigidol newydd. Mae hyn oherwydd y gofyniad yn Opsiwn 2 i fusnesau derbyn gwastraff gofnodi eu symudiadau gwastraff a'u trosglwyddiadau gwastraff yn ddigidol. Bydd angen i safleoedd gwastraff gydymffurfio â'u gofynion dyletswydd gofal presennol<sup>21</sup>, ond trwy ddefnyddio systemau digidol yn hytrach na phapur.

**26.5** Gallai'r costau pontio gynnwys costau ymgyfarwyddo, hyfforddi a chostau technoleg newydd ar y safle (e.e. TG). Rydym yn disgwyl i gyfanswm y costau pontio hyn fod yn **£2.09 miliwn (£0.1 miliwn yng Nghymru)** dros 4 blynedd (2026-2029).

**26.6** Amcangyfrifwyd y costau pontio i safleoedd gwastraff trwy ddadansoddi ymatebion i arolwg a rannwyd gyda sampl o gwmnïau gwastraff. Yn yr arolwg,

<sup>20</sup> Mae cyfrifiad y Tâl Gwasanaeth yn seiliedig ar amorteiddiad 10 mlynedd

<sup>21</sup> Bydd angen i safleoedd gwastraff wneud yn siŵr bod cod unigryw wedi'i roi i'r gwastraff, bydd angen iddynt rannu manylion symud/trosglwyddo'r gwastraff gyda'r sawl a wnaeth drin y gwastraff yn flaenorol a'r safle y mae'r gwastraff yn cael ei symud iddo. Nhw hefyd fydd yn gyfrifol am adrodd beth sy'n digwydd i'r gwastraff os caiff ei drin neu ei waredu ar eu safle.

gofynnwyd i fusnesau sut roedden nhw'n disgwyl cydymffurfio â gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff. Y dull pennaf i fusnesau gydymffurfio â'r gwasanaeth tracio gwastraff newydd yw trwy symud yn uniongyrchol i gyflwyno eu cofnodion gwastraff ar wasanaeth TG canolog, neu ddefnyddio dull cyflwyno eilaidd dros dro am 12 mis cyn symud i'r gwasanaeth TG canolog.

**26.7** Yn ôl arolwg panel defnyddwyr tracio gwastraff ar wahân<sup>22</sup>, dywedodd 27% o'r ymatebwyr eu bod yn **defnyddio cofnod ar bapur yn unig. Roedd 20% yn defnyddio taenlenni, a 53% yn defnyddio meddalwedd.**

**26.8** O'r arolwg a gynhaliwyd gan DEFRA yn 2025 (ar ran y prosiect), byddai'n well gan 76% o'r defnyddwyr meddalwedd ddefnyddio dull lanlwytho uniongyrchol, gyda 24% yn ffafrio lanlwytho taenlenni. Byddai'n well gan 100% o'r rhai sy'n defnyddio taenlenni ar hyn o bryd allu lanlwytho taenlenni. O'r rhai sy'n defnyddio papur, byddai'n well gan 27% ohonynt lanlwytho uniongyrchol, gyda 73% yn ffafrio lanlwytho taenlenni.

**26.9** Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r arolwg hwn, gweithredwyd cyfrannau defnyddwyr papur, taenlenni a meddalwedd i gyfanswm nifer y safleoedd derbyn a CBD a ddarparwyd gan reoleiddwyr. Drwy wneud hyn, roedd modd dyrannu busnesau ar draws y gwahanol ddulliau lanlwytho ac amcangyfrif yr amser y byddai ei angen ar gyfer sefydlu ac ymgyfarwyddo. Roedd 117,853 o CBDs haen uwch (7,675 o'r rhain yng Nghymru) a 11,764 o safleoedd derbyn (748 o'r rhain yng Nghymru) ar y pryd.

**26.10** Pwysodd y prosiect ar ragdybiaethau pontio Troi Treth yn Ddigidol CThEF, sy'n cael ei hystyried yn broses gynefino ddigidol debyg. Hysbysodd hyn nifer yr oriau y mae busnesau'n debygol o'u treulio ar sefydlu ac ymgyfarwyddo ag API y meddalwedd.

**Tabl 8: Nifer yr oriau disgwyledig i fusnesau bontio**

| Hyfforddiant / Ymgyfarwyddo                        |       | Oriau i sefydlu           |       |
|----------------------------------------------------|-------|---------------------------|-------|
| Pontio i API Meddalwedd                            |       |                           |       |
| Taith Cadw Cofnodion                               | Oriau | Taith Cadw Cofnodion      | Oriau |
| O bapur i feddalwedd                               | 8     | O bapur i feddalwedd      | 6     |
| Taenlen i feddalwedd                               | 4     | Taenlen i feddalwedd      | 2     |
| O feddalwedd i feddalwedd                          | 2     | O feddalwedd i feddalwedd | 0     |
| Pontio i ddull cyflwyno dros dro eilaidd am 12 mis |       |                           |       |
| Papur i eilaidd                                    | 6     | Papur i eilaidd           | 6     |
| Taenlen i eilaidd                                  | 2     | Taenlen i eilaidd         | 2     |
| Meddalwedd i eilaidd                               | 4     | Meddalwedd i eilaidd      | 2     |
| Dull Eilaidd i Feddalwedd                          |       |                           |       |
| Pob cwmni                                          | 4     | Pob cwmni                 | 2     |

**26.11** Bydd busnesau sy'n dewis defnyddio'r dull cyflwyno eilaidd dros dro yn wynebu cost pontio ychwanegol wrth symud i integreiddio meddalwedd llawn

<sup>22</sup> Holodd yr arolwg 331 o fusnesau, ac fe'i cynhaliwyd ym mis Ionawr 2021

ar ôl y flwyddyn gyntaf. Mae hyn wedi'i ystyried yn y cyfrifo a'r costau cyffredinol.

**26.12** Er mwyn amcangyfrif y costau hyn, lluoswyd y nifer perthnasol o gwmnïau â'r oriau ymgyswrtwyddo disgwylidig a defnyddio'r cyflog cymedrig fesul awr i weinyddwyr rheoli gwastraff o £21.48 (gan gynnwys 22% ychwanegol i gyfrif am gostau nad ydynt yn gostau cyflog)<sup>23</sup>.

**26.13** Rydym yn disgwyl i gyfanswm costau pontio gyda gostyngiad i safleoedd derbyn fod yn £2.03m (£0.13m yng Nghymru).

### Costau meddalwedd

**26.14** O dan Opsiwn 2, dim ond safleoedd derbyn trwyddedig sy'n gorfod defnyddio systemau digidol i gyflwyno data symud gwastraff. Bydd busnesau sydd eisoes yn defnyddio meddalwedd rheoli gwastraff masnachol yn gallu integreiddio'n uniongyrchol trwy'r API heb unrhyw gost meddalwedd ychwanegol. Fodd bynnag, bydd angen i weithredwyr heb systemau cydnaws presennol brynu meddalwedd newydd neu uwchraddio eu hoffer presennol i fodloni gofynion digidol. Disgwylir i'r costau meddalwedd hyn fod ar ffurf ffioedd trwydded blynyddol neu fisol cylchol yn daladwy i'r gwerthwyr meddalwedd.

**26.15** Er mwyn amcangyfrif y costau parhaus hyn, defnyddiwyd cyfanswm nifer y safleoedd derbyn dan sylw (ffigur wedi'i ddarparu gan reoleiddwyr) gan ragdybio mai dim ond y rhai heb feddalwedd cyfredol a fyddai'n wynebu gwariant ychwanegol.

**26.16** Oherwydd nad yw pris y farchnad ar gyfer meddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol ar gael eto, defnyddiwyd rhagdybiaethau cost Troi Treth yn Ddigidol CThEF fel procsi. Amcangyfrifwyd ganddynt y byddai cost flynyddol cyfartalog y feddalwedd yn £158 y flwyddyn ar gyfer pontio digidol tebyg. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch prisiau meddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol yn y dyfodol a chan gydnabod bod y farchnad yn llai o'i chymharu â'r rhai a fyddai'n defnyddio meddalwedd treth, defnyddiwyd tuedd optimistiaeth o 400% gennym, gan arwain at gost flynyddol amcangyfrifedig o £632 i fusnes.

**26.17** Mae'r duedd optimistiaeth yn adlewyrchu'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, y tebygolrwydd y bydd gan ddatblygwyr meddalwedd lai o ddefnyddwyr er mwyn glastwreiddio costau datblygu, a'r posibilrwydd y bydd swyddogaethau tracio gwastraff pwrpasol yn cael ei brisio'n uwch na meddalwedd cyfrifyddu safonol.

**26.18** Drwy wneud tracio gwastraff yn ddigidol yn ofyniad gorfodol, rydym yn creu cyfle masnachol clir a fydd yn denu ystod ehangach o werthwyr meddalwedd i'r farchnad. Cynlluniwyd ein strategaeth ymgysylltu yn benodol

---

<sup>23</sup>[Earnings and hours worked, by industry and occupation: ASHE Tabl 29 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/economy/earningsandhours/tables/ashe-tables)

i ddod â'r gwerthwyr hynny at y bwrdd yn gynnar, gan eu helpu i ddeall y gofynion a'r farchnad newydd hon. Wrth i fwy o werthwyr meddalwedd gymryd rhan a chystadlu am y sylfaen cwsmeriaid estynedig hon, bydd prisiau'n cael eu gostwng, yn union fel y digwyddodd gyda'r farchnad Troi Treth yn Ddigidol. Rydym yn disgwyl i gost meddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol fod yn is na phris y farchnad y meddalwedd rheoli gwastraff presennol.

**26.19** Mae'r gwariant ar feddalwedd yn cynrychioli trafodiad masnachol rhwng cwmnïau gwastraff a darparwyr meddalwedd, sy'n cwmpasu mynediad at yr adnodd digidol a'r gwaith cynnal a chadw arno.

**26.20** Rydym yn rhagweld y bydd costau meddalwedd i dderbynwyr yn £74m (Cymru £4.71m) (heb ostyngiad), dros y cyfnod gwerthuso.

**Tabl 9: Costau meddalwedd, £m, prisiau 2026**

|                        | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031–40 |               | Cyfanswm      |
|------------------------|------|------|------|------|------|---------|---------------|---------------|
| <b>Heb ostyngiad</b>   | 0.64 | 5.24 | 5.24 | 5.24 | 5.24 | 52.44   | Y DU<br>Cymru | 74.05<br>4.71 |
| <b>Gyda gostyngiad</b> | 0.64 | 5.07 | 4.89 | 4.73 | 4.57 | 38.00   | Y DU<br>Cymru | 57.90<br>3.68 |

## **Manteision**

### **27. Arbedion i'r Llywodraeth:**

Tâl Gwasanaeth – (Trosglwyddo o Fusnes i'r Llywodraeth)

Bydd cost lawn adeiladu a chynnal a chadw'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol yn cael ei adennill gan ddefnyddwyr trwy dâl gwasanaeth. Mae hyn yn creu arbediad i'r llywodraeth, gan fod y costau a fyddai fel arall yn cael eu hysgwyo gan y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu gan fusnesau. Amcangyfrifir bod hyn yn £16.73m (Cymru £1.06m) (heb ostyngiad).

## **Asesiad o Opsiwn 3**

### **28. Costau i Lywodraeth:**

**28.1** Yr unig gostau i'r llywodraeth o dan Opsiwn 3 yw'r costau cyfalaf a chostau parhaus adeiladu a chynnal a chadw'r gwasanaeth. Bydd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu hadennill trwy'r tâl gwasanaeth i ddefnyddwyr. Disgwylir i gostau adeiladu fod yn uwch nag o dan opsiwn 2. Mae hyn oherwydd y bydd yr opsiwn hwn ar gyfer pob cwmni gwastraff, nid derbynnydd yn unig. Yn yr un modd ag Opsiwn 2, bydd dull cyflwyno data eilaidd dros dro am oddeutu 12 mis.

**28.2** Bydd cost pontio CDEL (Cyfalaf) i adeiladu a gweithredu'r gwasanaeth tracio gwastraff newydd, sef £10.5 miliwn (£0.4 miliwn yng Nghymru), neu £10.3 miliwn (£0.4 miliwn yng Nghymru) gyda gostyngiad, dros gyfnod o 2 flynedd (2026-2027). Mae cynnal a chadw'r gwasanaeth dros y cyfnod gwerthuso hefyd yn arwain at gost RDEL (Adnoddau) o £24.46m (Cymru £1.13m), neu £21.29m (Cymru £0.99m) gyda gostyngiad.

## 29. Y Gost i Fusnesau

**29.1** O dan Opsiwn 3, bydd costau pontio ar gyfer yr holl safleoedd derbyn trwyddedig a'r holl gludwyr, broceriaid a delwyr (CBDs), i gofnodi eu data gwastraff ar y platfform Tracio Gwastraff yn Ddigidol newydd. Mae hyn oherwydd bod Opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes sy'n cynhyrchu, cludo neu reoli gwastraff gofnodi a chyflwyno eu symudiadau gwastraff yn ddigidol, yn hytrach na dim ond safleoedd derbyn fel yn Opsiwn 2.

**29.2** Gweler costau pontio yn Opsiwn 2, oherwydd defnyddiwyd yr un fethodoleg i gyfrifo costau pontio yn Opsiwn 3. Mae hyn yn cynnwys rhagdybiaethau Troi Treth yn Ddigidol CThEF ar gyfer nifer yr oriau ar gyfer sefydlu ac ymgyfarwyddo, nifer y derbynwyr/CBDs a ddarparwyd gan reoleiddwyr a chyfradd cyflog fesul awr y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer staff gweinyddol rheoli gwastraff. Disgwylir i'r costau hyn fod yn uwch nag yn Opsiwn 2 oherwydd bod nifer y busnesau dan sylw yn sylweddol uwch.

**29.3** Cyfanswm terfynol y costau pontio o dan Opsiwn 3 yw £2.09 miliwn (Cymru £0.13 miliwn), neu £2.03 miliwn (£0.13 miliwn yng Nghymru) gyda gostyngiad, ar gyfer safleoedd derbyn a £22.78 (Cymru £1.20 miliwn), neu £21.42 miliwn (Cymru £1.13 miliwn) gyda gostyngiad, ar gyfer CBDs, dros gyfnod o 5 mlynedd (2026-2030).

**Tabl 10: Nifer y safleoedd dan sylw**

| Taith Cadw Cofnodion    | Safleoedd Derbyn (y DU) | CBDs (y DU) | Safleoedd Derbyn (Cymru) | CBDs (Cymru) |
|-------------------------|-------------------------|-------------|--------------------------|--------------|
| Meddalwedd i Eilaidd    | 1498                    | 15008       | 95                       | 954          |
| Papur i Feddalwedd      | 852                     | 8536        | 54                       | 543          |
| Papur i Eilaidd         | 2269                    | 22731       | 144                      | 1445         |
| Meddalwedd i Feddalwedd | 4744                    | 47526       | 302                      | 3022         |
| Taenlen i Eilaidd       | 2401                    | 24052       | 153                      | 1529         |

**29.4** Bydd busnesau sy'n dewis defnyddio'r dull cyflwyno eilaidd dros dro yn wynebu cost pontio ychwanegol wrth symud i integreiddio meddalwedd llawn ar ôl y flwyddyn gyntaf. Mae'r rhain wedi'u cyfrif yn y costau isod.

**Tabl 11 – Costau pontio i fusnesau yn ystod y cyfnod pontio o'i gymharu â'r llinell sylfaen, Opsiwn 1, yn cynnwys safleoedd derbyn a CBDs – amcangyfrif gorau, prisiau 2026**

| Blwyddyn, £m    | 2026 | 2027  | 2028 | 2029 | 2030 |       | Cyfanswm |
|-----------------|------|-------|------|------|------|-------|----------|
| Heb ostyngiad   | 0.83 | 11.25 | 4.62 | 3.57 | 2.51 | Y DU  | 22.78    |
|                 | 0.04 | 0.59  | 0.24 | 0.19 | 0.13 | Cymru | 1.20     |
| Gyda gostyngiad | 0.83 | 10.87 | 4.31 | 3.22 | 2.19 | Y DU  | 21.42    |
|                 | 0.04 | 0.57  | 0.23 | 0.17 | 0.12 | Cymru | 1.13     |

### **30. Costau Tâl Gwasanaeth**

**30.1** Bydd costau rhedeg a rheoli parhaus gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff, sef cyfanswm cost o £38.25m (Cymru £2.02m), neu £30.70m (Cymru £1.62m) gyda gostyngiad, dros y cyfnod gwerthuso yn cael eu talu gan ddefnyddwyr y gwasanaeth trwy dâl gwasanaeth blynyddol. Disgwylir y bydd costau rhedeg a rheoli'r gwasanaeth ar gyfer pob busnes gwastraff yn uwch nag yn Opsiwn 2. Bydd costau adeiladu a chostau rhedeg system tracio gwastraff ar gyfer pob defnyddiwr yn cael eu rhannu rhwng mwy o fusnesau (117,853 o CBDs haen uwch ychwanegol (7,675 yng Nghymru) na system ar gyfer safleoedd derbyn trwyddedig yn unig (11,765 o safleoedd (748 yng Nghymru), gan arwain at gost is 'fesul busnes'. Fel gydag Opsiwn 2, ar ôl blwyddyn 10 o'r gwasanaeth, bydd cost lawn adeiladu'r system wedi'i hamorteiddio, gan arwain at dâl gwasanaeth is.

### **31. Costau Meddalwedd**

**31.1** Bydd angen i fusnesau allu defnyddio meddalwedd rheoli gwastraff er mwyn cydymffurfio â'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol. Mae rhai gweithredwyr eisoes yn defnyddio meddalwedd masnachol i reoli cofnodion gwastraff, ond bydd angen i'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny brynu meddalwedd neu uwchraddio eu systemau presennol. Disgwylir i'r costau meddalwedd hyn fod yn ailadroddus (ffioedd trwydded misol neu flynyddol yn daladwy i werthwyr meddalwedd).

**31.2** Er mwyn amcangyfrif y costau parhaus hyn, defnyddiwyd cyfanswm nifer y safleoedd derbyn gwastraff a CBDs (ffigur wedi'i ddarparu gan reoleiddwyr) a rhagdybiwyd na fydd angen i fusnesau sydd â meddalwedd ar hyn o bryd ac sy'n symud i'r opsiwn API meddalwedd, dalu am feddalwedd.

**31.3** Oherwydd nad yw'r costau meddalwedd yn wybyddus eto, defnyddiwyd rhagdybiaethau Troi Treth yn Ddigidol CThEF fel sylfaen i raddio'r feddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol arfaethedig. Mae'r broses honno'n cynrychioli pontio digidol ar raddfa fawr lle roedd yn ofynnol i fusnesau fabwysiadu meddalwedd cydnaws. Amcangyfrifodd CThEF gost flynyddol o £158 y busnes ar gyfartaledd. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch pwynt prisio meddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol yn y dyfodol a chan gydnabod bod y farchnad yn sylweddol llai na'r farchnad ddigidol ar gyfer treth, defnyddiwyd

tuedd optimistiaeth o 400%, gan arwain at gost flynyddol amcangyfrifedig o £632 i fusnes.

### 31.4 Mae'r duedd optimistiaeth uwch yn adlewyrchu:

- Ansicrwydd ynghylch sut y bydd darparwyr meddalwedd yn priso meddalwedd sy'n gydnaws â thracio gwastraff yn ddigidol.
- Y tebygolrwydd y bydd gan ddarparwyr lai o gwsmeriaid na'r farchnad Troi Treth yn Ddigidol, gan leihau eu gallu i wasgaru costau a'i gwneud yn rhatach i fusnesau.
- Absenoldeb tystiolaeth glir ar brisio meddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol yn y dyfodol a fydd yn cael ei ddefnyddio mor eang â hyn.

**31.5** Mae'r ffi feddalwedd a delir gan fusnesau yn cynrychioli trafodiad marchnad rhwng busnesau a darparwyr meddalwedd, lle mae busnesau yn prynu mynediad at feddalwedd tracio gwastraff yn ddigidol ac mae darparwyr meddalwedd yn derbyn refeniw uwch na'u costau datblygu a chynnal a chadw.

**31.6** Amcangyfrifwn y bydd cyfanswm cost gyda gostyngiad y meddalwedd i safleoedd derbyn gwastraff a CBDs yn £571.5m (Cymru £30.1m), neu £743.6m (Cymru £39.2m) heb ostyngiad.

**Tabl 12: Costau meddalwedd Opsiwn 3, £m, prisiau 2026**

|                 | 2026 | 2027  | 2028  | 2029  | 2030  | 2031–40 |       | Cyfanswm |
|-----------------|------|-------|-------|-------|-------|---------|-------|----------|
| Heb ostyngiad   | 0.28 | 10.24 | 56.39 | 56.39 | 56.39 | 564.00  | Y DU  | 743.67   |
|                 | 0.01 | 0.54  | 2.97  | 2.97  | 2.97  | 29.73   | Cymru | 39.21    |
| Gyda gostyngiad | 0.28 | 9.89  | 52.64 | 50.85 | 49.14 | 408.74  | Y DU  | 571.53   |
|                 | 0.01 | 0.52  | 2.78  | 2.68  | 2.59  | 21.55   | Cymru | 30.13    |

## **32. Manteision cyffredinol**

**32.1** Bydd Opsiwn 3 yn cynnig buddion sylweddol i gymdeithas, rheoleiddwyr, busnesau a'r llywodraethau. Mae'r buddion hyn yn cynnwys gwell effeithlonrwydd o fewn yr asiantaethau, arbedion i fusnesau o gofnodi data yn ddigidol a threulio llai o amser yn cyflwyno ffurflenni data, ac arbedion i'r llywodraeth ganolog o ran costau llai ynghlwm wrth adeiladu a rhedeg datrysiadau TG amgen. Bydd pob cyfranogwr hefyd yn elwa ar lai o droseddau gwastraff.

**32.2** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, gwnaethom ddefnyddio'r ffigurau y cyfeirir atynt yn Nhabl 5 Sonarr 2020 CNC (ffynhonnell: Amcangyfrifon Eunomia) – cyfrifwyd bod cyfanswm costau troseddau gwastraff yn £15.2-32.4m (ym mhrisiau 2016).

**32.3** Pwyswyd ar y gwaith ymchwil hwn i wella ein dealltwriaeth o'r **cyfle** am ddeilliannau manteisiol i wahanol gyfranogwyr o leihau troseddau gwastraff, ac i helpu i bennu gwerth rhai o effeithiau disgwyliedig posibl y system Tracio Gwastraff ganolog.

**32.4** Rydym wedi gwneud cyfres o ragdybiaethau am effaith ddisgwyliedig lleihau troseddau gwastraff o ganlyniad i weithredu gwasanaeth Tracio Gwastraff canolog ar gyfer pob gwastraff. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u datblygu ar y cyd â'r rheoleiddwyr.

**Tabl 13 – Amcangyfrif o gostau troseddau gwastraff yn ôl math yng Nghymru 2015-16**

| Math                               | Ystod Cost (£m)    |
|------------------------------------|--------------------|
| Safleoedd gwastraff anghyfreithlon | £2.3–£5.6 miliwn   |
| Tanau gwastraff                    | £0.7–£1.1 miliwn   |
| Tipio Anghyfreithlon               | £4.7–£11.8 miliwn  |
| Camddosbarthu                      | £1.3–£7.3 miliwn   |
| Torri amodau trwyddedau            | £4.9 miliwn        |
| Allforio anghyfreithlon            | £1.3–£1.7 miliwn   |
| Pob math                           | £15.2–£32.4 miliwn |

### **Buddion i'r Llywodraeth a'r Rheoleiddwyr:**

#### **33. Mwy o refeniw treth o leihau troseddau gwastraff**

**33.1** Disgwylir i dracio gwastraff yn ddigidol leihau sawl math o droseddau gwastraff trwy gynyddu tryloywder, gwella'r gallu i dracio a galluogi mwy o ymyrraeth ar sail wybodus. Wrth i fwy o wastraff gael ei ddargyfeirio o sianeli anghyfreithlon i gyfleusterau trin cyfreithlon, bydd derbyniadau treth a gollwyd yn flaenorol oherwydd gweithgarwch troseddol yn dychwelyd i'r sector cyhoeddus.

**33.2** Mae'r is-adran isod yn esbonio sut y mae'r cynnydd o refeniw treth wedi'i amcangyfrif ar gyfer pob trosedd gwastraff. Ym mhob achos, mae'n refeniw treth a ddylai fod wedi'i dderbyn eisoes yn absenoldeb troseddau gwastraff. Rydym yn disgwyl i'r holl fuddion hyn ddechrau gael eu gwireddu o 2028 ymlaen.

**33.3** Cost sy'n cael ei throsglwyddo o fusnesau i'r llywodraeth yw hon, ond o ystyried y dylai'r costau hyn fod wedi cael eu talu gan fusnesau o dan y llinell sylfaen, rydym wedi eithrio'r costau ariannol cyfatebol i fusnesau wrth gyfrifo'r

£8.95m o werth presennol net. Gyda chymhareb cost a budd o 1.26.

### **33.4 Rhennir manteision lleihau troseddau gwastraff yn fwy o drethiant safleoedd tirlenwi**

oherwydd y canlynol:

- Llai o gamddisgrifio gwastraff
- Llai o safleoedd gwastraff anghyfreithlon
- Llai o allforio gwastraff anghyfreithlon
- Llai o dipio anghyfreithlon.

**33.5** Disgwylir i dracio gwastraff yn ddigidol, wedi'i weithredu'n llawn o'r dechrau i'r diwedd, ddarparu data mwy cynhwysfawr, amserol a chysylltiedig ar hyd y gadwyn wastraff, gan alluogi ymyriadau mwy systematig ar sail gwybodus. O ganlyniad, gallai'r buddion meintioledig fod yn geidwadol a heb lawn amcangyfrif effaith tracio gwastraff yn ddigidol ar leihau troseddau gwastraff unwaith y mae'r system wedi gwreiddio'n llwyr.

## **34. Cynnydd mewn Trethiant Tirlenwi o ganlyniad i lai o gamddisgrifio gwastraff**

**34.1** Gall camddosbarthu gwastraff ddigwydd ar unrhyw gam yn y gadwyn rheoli gwastraff – naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol. Gall goblygiadau ariannol camddosbarthu fod yn sylweddol. Er enghraifft, mae gwastraff sy'n cael ei ddosbarthu fel gwastraff 'anadweithiol'<sup>24</sup> yn ddarostyngedig i gyfradd is o'r Dreth Tirlenwi.

**34.2** Disgwylir y bydd tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff o dan Opsiwn 3 yn ei gwneud hi'n haws i asiantaethau nodi camddisgrifio. Bydd yn dileu o leiaf peth, os nad y cyfan, o'r angen am archwiliadau llif gwastraff sy'n llyncu llawer iawn o amser a gorfod edrych trwy nodiadau trosglwyddo gwastraff papur sy'n sail i'r gwaith camddisgrifio ar hyn o bryd. Bydd tracio gwastraff yn galluogi gwell dealltwriaeth ynghylch gwastraff sy'n cael ei wrthod mewn safleoedd gwaredu oherwydd camddisgrifio (damweiniol neu dwyfflodrus) a bydd rheoleiddwyr yn gallu mynd ar drywydd y cyfranogwyr dan sylw yn llawer mwy effeithiol o ganlyniad i'r wybodaeth o ansawdd uwch a geir drwy'r gwasanaeth tracio gwastraff.

**34.3** Mae system tracio cwbl ddigidol o'r dechrau i'r diwedd yn cael gwared ar lawer o wendidau'r broses bresennol nad yw wedi ei chanoli. Bydd DWTS yn:

- Amlygu newidiadau i ddisgrifiad gwastraff wrth i ddeunyddiau symud ar hyd y gadwyn
- Darparu gwybodaeth i reoleiddwyr am wastraff a wrthodwyd oherwydd camddisgrifio

---

<sup>24</sup> Mae gwastraff anweithredol yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ddeunyddiau mewn adeiladwaith adeilad yn ogystal â phridd a gloddiwyd ar gyfer sylfeini. Mae'r rhan fwyaf o fathau o goncrit, brics, gwydr, pridd, clai a graean yn cael eu dosbarthu fel deunyddiau anweithredol.

- Dileu dibyniaeth ar archwiliadau llafur-ddwys ac adolygu nodiadau papur â llaw
- Caniatáu mynd ar drywydd wedi'i dargedu gyda'r cyfranogwyr perthnasol ar sail cofnodion digidol cyflawn.

**34.4** Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganfod camddisgrifio ac yn lleihau'r cymhellion i weithredwyr gamddosbarthu gwastraff.

### **35. Cynnydd mewn trethiant o ganlyniad i ostyngiad mewn safleoedd gwastraff anghyfreithlon a thorri amodau trwyddedau gwastraff**

**35.1** Gall gweithgarwch troseddol gael ei gyflawni gan unigolion neu sefydliadau trwy dorri amodau trwydded amgylcheddol neu weithredu safle gwastraff anghyfreithlon. Mae enghreifftiau'n cynnwys derbyn gormod o wastraff yn fwriadol, storio gwastraff mewn ffordd amhriodol neu dderbyn gwastraff nad yw'n cael ei ganiatáu o dan drwydded benodol.

**35.2** Drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwastraff gofnodi a chyflwyno eu symudiadau a'u trosglwyddiadau gwastraff yn ddigidol, bydd y gwasanaeth tracio gwastraff yn ei gwneud hi'n anoddach i weithredwyr gwastraff redeg, neu gefnogi, safleoedd anghyfreithlon (gan gynnwys safleoedd gwastraff sy'n torri amodau eu trwydded). Yn ogystal, bydd system tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff yn galluogi rheoleiddwyr i lunio darlun mwy cyflawn o gynhyrchu gwastraff ar safleoedd heb drwyddedau amgylcheddol. Byddai hyn yn galluogi rheoleiddwyr i gynnal dadansoddiad data o sectorau cyfan a nodi safleoedd anarferol sy'n werth eu harchwilio ymhellach.

**35.3** Gyda system tracio gwastraff ganolog ar waith, rydym yn disgwyl y bydd rhywfaint o wastraff a fyddai wedi cael ei drin ar safleoedd anghyfreithlon yn cael ei drin gan gyfleusterau awdurdodedig yn y farchnad gyfreithlon – gan gynnig buddion i fusnesau trwy greu mwy o elw ac i'r llywodraeth yn sgil hynny trwy fwy o drethi (TAW, treth gorfforaeth a threth tirlenwi) a'r rheoleiddwr trwy orfodi mwy cost-effeithlon<sup>25</sup>.

### **36. Cynnydd mewn trethiant o ganlyniad i ostyngiad mewn allforion gwastraff anghyfreithlon.**

**36.1** Er bod modd allforio peth gwastraff yn gyfreithlon i'w ailgylchu a'i adfer, mae'n anghyfreithlon ym mron pob achos i allforio gwastraff heb ei drin o'r DU i'w waredu<sup>26</sup>. Mae deall graddfa allforio gwastraff anghyfreithlon yn

<sup>25</sup> Bydd y gwasanaeth tracio gwastraff yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth i gynorthwyo'r rheoleiddwyr gyda'r gwaith o fonitro cydymffurfedd a gweithgarwch gorfodi wedi'i dargedu.

<sup>26</sup> Mae Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007 yn diffinio'r gweithdrefnau, y troseddau a'r cosbau sy'n ymwneud ag allforio gwastraff o'r DU.

hynod anodd. Mae'r data cyfredol yn annibynadwy ac yn anghyflawn<sup>27</sup>, oherwydd bod y data yn seiliedig yn bennaf ar y troseddau sy'n cael eu canfod.

**36.2** Bydd tracio gwastraff yn galluogi gorfodi ar sail wybodus, a disgwylwn y bydd yn atal gweithredwyr rhag allforio gwastraff yn anghyfreithlon.

**36.3** Efallai y bydd buddion pellach i'r sector cyhoeddus yn sgil llai o allforio gwastraff anghyfreithlon ar ffurf llai o gostau dychwelyd gwastraff. Bydd tracio gwastraff nid yn unig yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd allforio gwastraff anghyfreithlon yn digwydd yn y lle cyntaf, ond bydd gan y rheoleiddiwr ragor o wybodaeth i nodi'r gweithredwr/gweithredwyr anghyfreithlon penodol ac i sicrhau bod costau dychwelyd gwastraff yn cael eu casglu gan y gweithredwr/gweithredwyr sy'n troseddu).

### **37. Cynnydd mewn trethiant o ganlyniad i ostyngiad mewn tipio anghyfreithlon (trosglwyddo o fusnesau i'r llywodraeth)**

**37.1** Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd eang, ac mae'n cael ei ddiffinio fel gwaredu gwastraff cartref, diwydiannol, masnachol neu wastraff 'rheoledig' arall yn anghyfreithlon heb awdurdod rheoli gwastraff priodol. Mewn llawer o achosion, mae'n ddigwyddiad untro, gyda throseddau yn bachu ar y cyfle i geisio osgoi costau trin neu waredu gwastraff.

**37.2** Bydd y gwasanaeth Tracio Gwastraff yn gallu mynd i'r afael yn uniongyrchol â thipio gwastraff masnachol, sy'n deillio o waith adeiladu, dymchwel, cloddio a gweithgareddau masnachol eraill. Mae hynny oherwydd y bydd pob gwastraff masnachol yn cael ei dracio o'i darddiad i'r fan y caiff ei waredu.

**Tabl 14: Buddion troseddau gwastraff i'r llywodraeth, Opsiwn 3, £m, prisiau 2026**

|                            | 2026/7 | 2028  | 2029  | 2039  | 2031  | 2032–40 |       | Cyfanswm |
|----------------------------|--------|-------|-------|-------|-------|---------|-------|----------|
| <b>Heb<br/>ostyngiad</b>   | 0.00   | 35.10 | 35.10 | 35.10 | 35.10 | 315.88  | Y DU  | 456.27   |
|                            | 0.00   | 1.63  | 1.63  | 1.63  | 1.63  | 14.64   | Cymru | 21.15    |
| <b>Gyda<br/>gostyngiad</b> | 0.00   | 32.76 | 31.65 | 30.58 | 29.55 | 224.81  | Y DU  | 349.37   |
|                            | 0.00   | 1.52  | 1.47  | 1.42  | 1.37  | 10.42   | Cymru | 16.19    |

### **Manteision i fusnesau**

### **38. Lleihau Troseddau Gwastraff**

<sup>27</sup> Ar hyn o bryd, dim ond i NIEA a SEPA yr anfonir adroddiadau am symudiadau gwastraff ar y rhestr werdd sy'n cael eu cludo o dan reolaethau Erthygl 18 – nid oes unrhyw arolygiaeth o'r allforion hyn o Gymru na Lloegr

**38.1** Mae'r buddion i fusnesau o leihau troseddau gwastraff yn seiliedig ar yr un ffynonellau ag y disgrifir uchod o dan 'lleihau troseddau gwastraff – buddion i'r llywodraeth' yn yr adran flaenorol.

**38.2** Lleihau safleoedd gwastraff anghyfreithlon a thorri amodau trwyddedau – Bydd lleihau safleoedd gwastraff anghyfreithlon a thorri amodau trwyddedau gwastraff yn arwain at fwy o elw i weithredwyr cyfreithlon. Mae gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau allweddol, fel treth tirlenwi, ffioedd trwydded a gofynion cydymffurfio, sy'n caniatáu iddynt godi prisiau is na busnesau sy'n cydymffurfio. Drwy wella'r graddau y gellir tracio a gwneud gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio yn anoddach i'w cuddio, mae tracio gwastraff yn ddigidol yn lleihau hyfywedd gweithrediadau anghyfreithlon ac yn symud mwy o wastraff i'r farchnad gyfreithlon. O ganlyniad, mae gweithredwyr awdurdodedig yn delio â gwastraff ychwanegol ac yn wynebu llai o gystadleuaeth yn sgil prisiau annheg, gan arwain at reffeniw uwch a gwell proffidioldeb i'r gweithredwr yn y sector sy'n cydymffurfio.

**38.3** Lleihau allforion gwastraff anghyfreithlon – Bydd llai o allforio gwastraff anghyfreithlon yn arwain at elw ychwanegol i weithredwyr gwastraff cyfreithlon. Mae allforwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu a thrin trwy anfon gwastraff dramor yn anghyfreithlon, gan ganiatáu iddynt gynnig prisiau is a chipio cyfran o'r farchnad gan fusnesau sy'n cydymffurfio. Drwy wella'r gallu i dracio a galluogi rheoleiddwyr i ganfod ac atal allforio anghyfreithlon yn fwy effeithiol, mae tracio gwastraff yn ddigidol yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd o'r fath. Wrth i fwy o wastraff aros o fewn system rheoli gwastraff y DU a'i drin trwy sianeli cyfreithlon, mae gweithredwyr sy'n cydymffurfio yn delio â gwastraff ychwanegol, gwastraff a fyddai fel arall wedi cael ei ddargyfeirio yn anghyfreithlon.

**38.4** Lleihau tipio anghyfreithlon – Disgwylir i leihau tipio anghyfreithlon masnachol gynyddu'r elw i weithredwyr cyfreithlon. Pan fydd busnesau neu gontractwyr yn osgoi costau gwaredu trwy ddympio gwastraff yn anghyfreithlon, mae gweithredwyr sy'n cydymffurfio yn colli reffeniw posibl o gasglu, trin a gwaredu gwastraff yn gyfreithlon. Drwy wella'r gallu i dracio a'i gwneud hi'n anoddach i wastraff ddiflannu o'r system, mae tracio gwastraff yn ddigidol yn lleihau cyfleoedd ar gyfer tipio anghyfreithlon. Wrth i fwy o wastraff masnachol gael ei gyfeirio trwy gyfleusterau awdurdodedig yn hytrach na'i ddympio yn anghyfreithlon, mae gweithredwyr cyfreithlon yn elwa trwy ddelio â mwy o wastraff a thrwy ennill incwm uwch.

**Tabl 15: Buddion troseddau gwastraff i fusnes, Opsiwn 3, £m, prisiau 2026**

|                          | 2026/7 | 2028  | 2029  | 2039  | 2031  | 2032–40 |       | Cyfanswm |
|--------------------------|--------|-------|-------|-------|-------|---------|-------|----------|
| <b>Heb<br/>ostyngiad</b> | 0.00   | 35.56 | 35.56 | 35.56 | 35.56 | 320.03  | Y DU  | 462.27   |
|                          | 0.00   | 1.87  | 1.87  | 1.87  | 1.87  | 16.87   | Cymru | 24.37    |

|                 |      |       |       |       |       |        |       |        |
|-----------------|------|-------|-------|-------|-------|--------|-------|--------|
| Gyda gostyngiad | 0.00 | 33.19 | 32.07 | 30.99 | 29.94 | 227.77 | Y DU  | 353.96 |
|                 | 0.00 | 1.75  | 1.69  | 1.63  | 1.58  | 12.01  | Cymru | 18.66  |

### 39. Arbedion o ddileu'r angen i gyflwyno ffurflenni gwastraff (ffurflenni safle trwyddedig)

**39.1** Rydym yn disgwyl y bydd arbedion i weithredwyr gwastraff wrth beidio â gorfod cyflwyno ffurflenni gwastraff mwyach. O dan Opsiwn 3, byddai'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol yn cipio data ar symudiadau gwastraff o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys mewnbynnau ac allbynnau o safleoedd gwastraff. Mae hyn yn darparu'r un wybodaeth ag sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd o'r ffurflenni chwarterol hyn, gan ganiatáu i'r rheoleiddwyr ddileu'r angen i gyflwyno'r ffurflenni hynny. Ar y llaw arall, mae Opsiwn 2 yn cipio data ar wastraff sy'n cael ei dderbyn i safleoedd yn unig. Nid yw'n darparu gwelededd o symudiadau neu allbynnau gwastraff, sy'n golygu y byddai ffurflenni gwastraff yn dal i fod yn ofynnol ac ni ellir dileu'r angen amdanynt o dan yr opsiwn hwnnw. Trafodwyd hyn gyda'r rheoleiddwyr.

**39.2** Er mwyn amcangyfrif yr arbediad hwn, ymgysylltwyd â phanel defnyddwyr tracio gwastraff. Gofynnwyd i'r panel pa mor hir maen nhw'n ei dreulio ar hyn o bryd yn cyflwyno ffurflenni safle a ffurflenni esemptiadau gwastraff a pha mor aml maen nhw'n eu cyflwyno'. Dadansoddwyd yr ymatebion, gan ddileu unrhyw allanolion sylweddol.

**39.3** Gan ddefnyddio'r canolrif cyflog ar gyfer gweithwyr sy'n gwaredu gwastraff (£20.72, o'r arolwg oriau ac enillion blynyddol<sup>28</sup>) a chwyddo hwn 1.5% y flwyddyn i amcanu cyfraddau cyflog o 2023 ymlaen, ac yna chwyddo hyn o 22% i gynnwys costau y tu hwnt i gyflogau, pennwyd amcangyfrif o'r arbedion o ddileu'r angen i gyflwyno ffurflenni safleoedd trwyddedig a ffurflenni gwastraff gan safleoedd gwastraff nad yw'n beryglus sy'n esempt.

**39.4** Bydd rheoleiddwyr yn dileu ffurflenni safle chwarterol o 2028.

28

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/adhoc/11690annualsurveyofhoursandearningsasheestimatesofearningscoveringfourdigitoccupationbypublicandprivatesectors>

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/adhoc/11690annualsurveyofhoursandearningsasheestimatesofearningscoveringfourdigitoccupationbypublicandprivatesectors> Cyflog canolrifol 2020 ar gyfer "rheolwyr gwasanaethau preifat, gwaredu gwastraff ac amgylcheddol".

**Tabl 16 – Arbedion ariannol i fusnesau o ddileu'r angen i gyflwyno ffurflenni gwastraff ar gyfer safleoedd trwyddedig neu safleoedd gwastraff nad ydynt yn beryglus sy'n esempt**

|                                                                                                 |       | Oriau a arbedir | Ffurflenni a wnaed fesul blwyddyn | Arbediad blynyddol (heb ostyngiad) |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-----------------|-----------------------------------|------------------------------------|
| Ffurflenni safleoedd esempt (arbedion ynghlwm wrth esemptiadau gwastraff nad ydynt yn beryglus) | Y DU  | 3784            | 1                                 | £81,292                            |
|                                                                                                 | Cymru | 0               | 0                                 | £0                                 |
| Ffurflenni safle trwyddedig                                                                     | Y DU  | 501092          | 4                                 | £10,765,571                        |
|                                                                                                 | Cymru | 31859           | 4                                 | £684,458                           |
| Cyfanswm                                                                                        | Y DU  | 504876          |                                   | £10,846,863                        |
|                                                                                                 | Cymru | 31859           |                                   | £684,458                           |

**Tabl 17: Arbedion amser i fusnes, opsiwn 3, £m, prisiau 2026**

|                                        |       | 2026/7 | 2028 | 2029 | 2039  | 2031  | 2032–40 | Cyfanswm |
|----------------------------------------|-------|--------|------|------|-------|-------|---------|----------|
| Safleoedd trwyddedig – heb ostyngiad   | Y DU  | 0.00   | 0.00 | 8.33 | 11.11 | 11.11 | 99.97   | 130.52   |
|                                        | Cymru | 0.00   | 0.00 | 0.53 | 0.71  | 0.71  | 6.36    | 8.30     |
| Safleoedd esempt – heb ostyngiad       | Y DU  | 0.00   | 0.00 | 0.06 | 0.08  | 0.08  | 0.75    | 0.99     |
|                                        | Cymru | 0.00   | 0.00 | 0.00 | 0.00  | 0.00  | 0.00    | 0.00     |
| Safleoedd trwyddedig – gyda gostyngiad | Y DU  | 0.00   | 0.00 | 7.51 | 9.68  | 9.35  | 71.15   | 97.70    |
|                                        | Cymru | 0.00   | 0.00 | 0.48 | 0.62  | 0.59  | 4.52    | 6.21     |
| Safleoedd esempt – gyda gostyngiad     | Y DU  | 0.00   | 0.00 | 0.06 | 0.07  | 0.07  | 0.54    | 0.74     |
|                                        | Cymru | 0.00   | 0.00 | 0.00 | 0.00  | 0.00  | 0.00    | 0.00     |

### Buddion i Gymdeithas a'r Amgylchedd:

#### 40. Buddion cymdeithasol ac amgylcheddol yn sgil lleihau troseddau gwastraff

Ystyriwyd [Ymyrraeth a gwerthuso troseddau gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd](#)<sup>29</sup> ac adroddiadau 'Rethinking Waste Crime' a 'Counting the cost of UK Waste Crime' yr ESA wrth geisio pennu'r gostyngiad disgwyledig mewn troseddau gwastraff yn dilyn gweithredu gwasanaeth tracio gwastraff

<sup>29</sup> [Waste crime interventions and evaluation - report.pdf](#) (tudalen 56)

canolog. Ar gyfer Cymru, ystyriwyd adroddiad Sonarr 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn cynnwys amcangyfrif o gostau troseddau gwastraff yn ôl math (cyfeirir at hyn yn Nhabl 5, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon Eunomia)<sup>30</sup>.

#### **41. Safleoedd gwastraff anghyfreithlon a thorri amodau trwyddedau**

**41.1** Gall safleoedd gwastraff anghyfreithlon andwyo cymunedau lleol trwy ryddhau arogleuon drwg, llygru dŵr wyneb neu ddŵr daear, sŵn a llwch o symudiadau cerbydau neu weithrediadau ar y safle, neu fwg o danau.

#### **42. Tipio Anghyfreithlon**

**42.1** Mae adroddiad AAS [Rethinking Waste Crime](#) ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020 yn amcangyfrif bod tipio anghyfreithlon wedi costio £4.7-11.8m yn 2015/16<sup>31</sup> (prisiau 2016).

**42.2** Mae safleoedd gwastraff anghyfreithlon, allforion gwastraff anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon i gyd yn arwain at fuddion o ran annymunoldeb. Cyfrifodd y fethodoleg yn yr adran hon y cyfraniad at y buddion o bob gostyngiad (gan addasu'r ffigurau i brisiau 2025), yna cynhwyswyd cyfanswm buddion annymunoldeb yn yr Asesiad Effaith, yn unol â'r tabl isod.

**Tabl 18: Buddion Annymunoldeb, Opsiwn 3, £m, prisiau 2026**

|                        |       | 2026/7 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032–40 | Cyfanswm |
|------------------------|-------|--------|------|------|------|------|---------|----------|
| <b>Heb ostyngiad</b>   | Y DU  | 0.00   | 1.33 | 1.33 | 1.33 | 1.33 | 11.95   | 17.26    |
|                        | Cymru | 0.00   | 0.06 | 0.06 | 0.06 | 0.06 | 0.55    | 0.80     |
| <b>Gyda gostyngiad</b> | Y DU  | 0.00   | 1.24 | 1.20 | 1.16 | 1.12 | 8.51    | 13.22    |
|                        | Cymru | 0.00   | 0.06 | 0.06 | 0.05 | 0.05 | 0.39    | 0.61     |

#### **43. Pam nad yw Opsiwn 2 yn darparu buddion Opsiwn 3**

**43.1** Nid yw Opsiwn 2 yn darparu rhai o fuddion Opsiwn 3 oherwydd nad yw'n sicrhau gwelededd lwyr cadwyn lawn y system wastraff. O dan Opsiwn 2, dim ond safleoedd derbyn gwastraff sy'n cyflwyno data, sy'n golygu nad yw symudiadau gwastraff rhwng cynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid a delwyr yn cael eu cipio.

**43.2** Heb y gallu hwn i dracio o'r dechrau i'r diwedd, mae'n anodd i reoleiddwyr ganfod troseddau gwastraff yn ddibynadwy, cysoni gwastraff coll neu wastraff sydd wedi'i gamddisgrifio, neu nodi ble yn y gadwyn mae methiannau cydymffurfio yn digwydd. Mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y system i leihau gweithgarwch anghyfreithlon, cynyddu cydymffurfedd treth neu gefnogi rheoleiddio mwy effeithlon.

<sup>30</sup> sonarr2020-theme-waste.pdf

<sup>31</sup> Sylwch: Amcangyfrif yw ffigur costau clirio tipio anghyfreithlon Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys costau clirio tipio anghyfreithlon ar dir preifat.

**43.4** O ganlyniad, ni ellir priodoli'r mathau o fuddion ariannol a ddisgwylir o dan Opsiwn 3, megis llai o droseddau gwastraff, mwy o refeniw treth a llai o faich rheoleiddio, i Opsiwn 2.

#### **44. Buddion na Phennwyd eu Gwerth (Opswn 2 a 3)**

**44.1** Mae'n anodd pennu gwerth llawer o'r buddion sy'n gysylltiedig â thracio gwastraff yn ddigidol oherwydd eu bod yn deillio o welliannau mewn gwybodaeth, tryloywder a gallu rheoleiddio, yn hytrach nag o newidiadau ymddygiadol uniongyrchol y mae modd eu meintoli'n hyderus. Fodd bynnag, nid yw hyn yn amharu ar werth y buddion hyn, a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r rhai y gallwn bennu eu gwerth.

**44.2** Mae buddion galluogi fel data mwy cywir ac amserol, targedu rheoleiddio gwell, gwell tystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, monitro cydymffurfio yn fwy cadarn a lleihau aneffeithlonrwydd gweithredol, i gyd yn dibynnu'n fawr ar sut y mae'r llywodraeth, rheoleiddwyr a busnesau yn dewis defnyddio'r data gwell a'r galluogrwydd technolegol. Mae graddfa ac amseriad yr effeithiau hyn a briodolir i dracio gwastraff yn ddigidol yn ansicr ac ni ellir eu meintoli'n gywir.

**44.3** Yn ogystal, mae rhai buddion eraill sy'n gysylltiedig ag osgoi niwed (e.e. osgoi difrod amgylcheddol, osgoi methiant rheoleiddio), sy'n gynhenid heriol i'w rhagweld heb dystiolaeth empirig gref. O ganlyniad, mae'r effeithiau hyn yn cael eu cipio'n ansoddol fel buddion cadarnhaol na ellir pennu eu gwerth yn hytrach nag amcangyfrifon meintioledig.

**44.4** Mae'r buddion a amlinellir isod yn berthnasol i Opswn 2 ac Opswn 3. Fodd bynnag, disgwylir i faint pob budd fod yn sylweddol uwch o dan Opswn 3, o'i gymharu ag Opswn 2.

#### **Buddion Galluogi**

**44.5** Fel rhaglen trawsnewid digidol ar raddfa fawr, mae cyfran sylweddol o werth tracio gwastraff yn ddigidol yn deillio o welliannau galluogrwydd y bydd y drefn yn eu galluogi ar gyfer polisiâu'r llywodraeth, swyddogaethau'r llywodraeth a chyfranogwyr y farchnad yn y dyfodol. Mae tracio gwastraff yn ddigidol yn alluogwr sylfaenol, gan ddarparu seilwaith digidol, data a systemau sy'n angenrheidiol fel y gall ystod eang o ddiwygiadau gwastraff, amgylcheddol a rheoleiddiol, nawr ac yn y dyfodol, weithredu'n effeithiol. Mae'r buddion galluogi hyn yn hanfodol i gyflawni gwerth hirdymor ond nid yw'n hawdd eu meintoli na phennu eu gwerth.

#### **Tracio gwastraff yn ddigidol fel dull sylfaenol o alluogi data a thechnoleg**

**44.6** Mae tracio gwastraff yn ddigidol yn darparu buddion galluogi sy'n deillio o **wella galluogrwydd data a thechnoleg** nad ydynt yn bosibl ar hyn o bryd o dan systemau data tameidiog, anghyson, seiliedig ar waith papur. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Galluogrwydd data gwell:**

Daw tracio gwastraff yn ddigidol â buddion sylweddol trwy wella argaeledd data o ansawdd ac ehangu'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r llywodraeth a rheoleiddwyr. Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- **Mwy o gwmpas data** – Bydd tracio gwastraff yn ddigidol yn darparu **set ddata genedlaethol safonol**, gan ddisodli ffynonellau data anghyson, anghyflawn ac anghydnaws. Bydd yn **ehangu'n sylweddol gwmpas y data a adroddir** ar symudiadau gwastraff, gan alluogi sylfaen dystiolaeth llawer ehangach (yn enwedig o dan Opsiwn 3).
  - **Data o ansawdd gwell** – Drwy ddigideiddio data symud gwastraff, bydd tracio gwastraff yn ddigidol yn gwella cysondeb **data casglu ac adrodd** yn sylweddol yn ogystal â **lleihau camgymeriadau y gellir eu hosgoi** gydag adroddiadau ar bapur, a thrwy hynny wella cywirdeb.
  - **Data mwy amserol** – Bydd tracio gwastraff yn ddigidol yn darparu **data symud gwastraff bron fel y mae'n digwydd**, gan alluogi monitro symudiadau gwastraff yn well wrth iddynt ddigwydd, neu yn fuan ar ôl hynny, a gwella gallu rheoleiddwyr i fonitro cydymffurfio a thargedu gwaith gorfodi. Mae data gwell yn gwella'r gallu i ddadansoddi, modelu a gwerthuso perfformiad, sydd oll yn cyfrannu ymhellach at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer deall symudiadau gwastraff.
- **Ystwythder ac integreiddio technoleg gwell:**
    - **Integreiddio digidol ar hyd y gadwyn wastraff**, gan alluogi cydnawsedd â systemau presennol a rhai sydd yn yr arfaeth (e.e. diwygio Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, plastigau a phe cynnu
    - **Technoleg hyblyg sydd â'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion**, gan ddarparu platfform y mae'n bosibl ei addasu wrth i anghenion polisi esblygu.

Bydd gwella'r galluoigrwydd data a thechnoleg yn galluogi llawer o fuddion pwysig gan gynnwys:

- **Gwell dirnadaeth ar gyfer datblygu polisi:** Mae'r galluoedd hyn yn caniatáu i'r llywodraeth weithredu a gwerthuso ystod lawer ehangach o bolisiâu nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Gall y pedair gwlad ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y system tracio gwastraff i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Bydd tracio gwastraff hefyd yn darparu'r gallu i sicrhau bod mwy o ddata, a data gwell, ar gael yn eang yn unol â ffocws y llywodraeth ar ddata agored. Heb dracio gwastraff yn ddigidol, byddai diwygiadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu gan wybodaeth anghyflawn, prosesau â llaw ac arolygiaeth gyfyngedig bron mewn amser real.
- **Arloesedd ac ymateboldeb:** Arloesi ac ymatebolrwydd: Mae tracio gwastraff yn ddigidol yn galluogi polisiâu na allai'r llywodraeth eu gweithredu o'r blaen (e.e. cymhellion mwy gronynnog ynghlwm wrth wastraff).
- Bydd DWTS **yn cefnogi rheoleiddio mwy effeithiol:** Bydd DWTS yn darparu'r data a'r wybodaeth sydd eu hangen ar reoleiddwyr i gynnal ymyriadau wedi'u targedu, i gefnogi busnesau cyfreithlon

ymhellach, i sicrhau'r gwerth gorau posibl o ddata ac i weithio'n fwy effeithlon.

- **Gwelliannau risg a chydymffurfio:** Mae tracio gwastraff yn ddigidol yn lleihau'r risg o fethiant rheoleiddiol a gorfodi gwan, ond nid yw'n bosibl pennu gwerth a rhagweld methiannau sy'n cael eu hosgoi mewn ffordd ddibynadwy.
- **Gwelliannau gweithredol ac arbedion effeithlonrwydd:** Bydd gwaith arferol gan fusnesau, rheoleiddwyr, Awdurdodau Lleol a llywodraethau yn debygol o gael ei wneud yn awtomatig, i ryw raddau, a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i bob cyfranogwr. Er enghraifft, bydd angen i'r llywodraeth gyhoeddi llai o arolygon a bydd yn treulio llai o amser yn ymateb i geisiadau data. Mae hyn yn cynnwys arbedion amser o gael gwared ar ffurflenni chwarterol gorfodol ar gyfer safleoedd gwastraff (o fis Hydref 2028), y mae ei werth wedi ei bennu. Mae effeithlonrwydd o ran gwaith targedu, arolygu a mynd i'r afael ag achosion gan reoleiddwyr yn dibynnu ar sut y mae asiantaethau yn dyrannu'r amser a arbedwyd ganddynt. Bydd gan fusnesau well gwybodaeth i'w galluogi i weithredu'n fwy effeithlon.
- **Gwell profiad busnes wrth gydymffurfio ag ymrwymïadau rhannu data:** Dylai DWTS hwyluso cydymffurfio â rheoliadau, yn ogystal â bod yn llai costus i fusnesau. Mae gwerth hyn wedi cael ei bennu'n rhannol ar ffurf arbedion amser o gael gwared ar ffurflenni chwarterol gorfodol ar gyfer safleoedd gwastraff.
- **Gwell data ar gyfer penderfyniadau buddsoddi:** Bydd tracio gwastraff yn gwella ansawdd data ar gyfer penderfyniadau buddsoddi gan fusnesau.

### **DWTS fel dull o alluogi diwygiadau i'r economi gylchol ar draws y llywodraeth**

**Mae tracio gwastraff yn ddigidol yn elfen graidd o'r dirwedd diwygio gwastraff ehangach. Mae'r buddion galluogi yn hybu gweithredu'r canlynol yn effeithiol:**

- **Strategaethau economi gylchol datganoledig:** galluogi rhannu data cyson ar draws y pedair gwlad.
- **Amcanion cynaliadwyedd a sero-net ehangach y llywodraeth,** sy'n dibynnu'n fawr ar ddata defnyddio adnoddau cadarn.

Heb dracio gwastraff yn ddigidol, byddai'n anoddach i'r diwygiadau hyn gyflawni eu deilliannau arfaethedig, gan na fyddai llwybrau data angenrheidiol, tryloywder ac arolygiaeth yn bodoli.

### **Pam na all Opsiwn 2 gipio'r buddion galluogi sy'n cael eu darparu gan Opsiwn 3**

Dim ond is-set o ddata (o safleoedd derbyn gwastraff) sy'n cael ei chasglu gan Opsiwn 2, sy'n cyfyngu ar ei rym galluogi oherwydd:

- Mae bylchau data yn parhau ar gyfer cynhyrchwyr, cludwyr a thrinwyr gwastraff eraill.
- Nid oes modd dirnad llif deunyddiau o'r dechrau i'r diwedd.
- Byddai canfod troseddau gwastraff gryn dipyn yn llai effeithiol heb y gallu i dracio drwy'r gadwyn gyfan.
- Mae cyfyngiad sylweddol ar integreiddio â diwygiadau eraill oherwydd bod polisïau ymhellach i lawr y gadwyn yn dibynnu ar ddata lefel cynhyrchydd a lefel symudiad na all Opsiwn 2 ei ddarparu.

O ganlyniad, nid yw Opsiwn 2 yn creu'r sylfaen alluogi sydd ei hangen ar gyfer y rhan fwyaf o ddiwygiadau yn y dyfodol.

### **Buddion eraill na phennwyd eu gwerth**

**44.7 Amgylchedd mwy diogel, glanach trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr** – Trwy ddarparu data gwell ar gyfaint, cyfansoddiad a chyrchfan gwastraff, bydd yn haws nodi cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gallai cyfleoedd o'r fath gynnwys dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi neu losgi a/neu leihau echdynnu adnoddau ynni-ddwys. Byddai lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn arwain at amgylchedd mwy diogel a glanach a byddai hyn yn darparu buddion eang i'r amgylchedd ac i gymdeithas.

**44.8 Refeniw ffi glwyd uwch** – Ffi glwyd yw'r ffi a godir ar wastraff sy'n cael ei dderbyn gan gyfleuster prosesu gwastraff. Mae'r ffi yn wahanol yn dibynnu ar gyfansoddiad y gwastraff. Bydd llai o gamddisgrifio gwastraff yn arwain at lai o achosion o weithredwyr yn ceisio lleihau eu taliadau ffi glwyd trwy gamddisgrifio eu gwastraff.

**44.9 Effeithlonrwydd adnoddau** – Bydd tracio gwastraff yn cynyddu llif gwastraff yn ôl i'r economi. Drwy ddigideiddio data, bydd busnesau/rheoleiddwyr yn gwella eu dealltwriaeth o fath a chyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, gan alluogi busnesau a rheoleiddwyr i nodi cyfleoedd gwerth uchel i gynyddu cynhyrchiant adnoddau. Er enghraifft, gallai hwyluso data gwell ar gyfansoddiad a chyrchfan gwastraff y mae modd ei addasu at ddibenion gwahanol arwain at ostyngiad yn y gwastraff diangen sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi neu losgi. Yn ogystal, pe bai rheolwyr gwastraff yn cynyddu eu hymgysylltiad â'r farchnad deunyddiau eilaidd, bydd deunydd wedi'i ailgylchu yn fwy hygyrch i gynhyrchwyr, gan eu gwneud yn llai dibynnol ar ddeunyddiau crai.

**44.10 Cyflenwad deunyddiau crai hanfodol mwy diogel** – Trwy gynyddu ein dealltwriaeth o ble mae deunyddiau crai hanfodol yn cael eu 'colli' ar hyn o bryd, gallwn gynnal ymyriadau wedi'u targedu i ddargyfeirio'r deunyddiau hyn i'w hailgylchu a'u hailddefnyddio.

**44.11 Cydymffurfio â dyletswydd gofal** – Mae'n debygol y bydd cynhyrchwyr gwastraff yn deall beth sydd wedi digwydd i'w gwastraff yn well,

a bydd hyn yn hwb i'w hyder eu bod yn cydymffurfio'n gyfreithiol â'r rheoliad dyletswydd gofal<sup>32</sup>.

---

<sup>32</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice>

## **45. Costau na Phennwyd eu Gwerth (Opswn 2 a 3)**

### **Costau monitro cydymffurfedd (taladwy i'r diwydiant)**

**45.1** Ar hyn o bryd, mae costau monitro cydymffurfedd gweithredwyr sy'n trin **gwastraff peryglus** yn daladwy i weithredwyr trwy dalu **ffioedd traddodi**. Fel rhan o'r argymhellion ar gyfer gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer pob math o wastraff, byddai rheoleiddwyr hefyd yn gallu adennill y costau ynghlwm wrth fonitro cydymffurfedd gweithredwyr sy'n trin gwastraff nad yw'n beryglus. Nid yw'r swyddogaethau a fyddai'n rhan o'r cwmpas adennill costau wedi'u cadarnhau eto. Mae'r rheoleiddwyr, llywodraethau datganoledig a swyddogion Defra yn gweithio'n agos i sefydlu'r swyddogaethau hyn ac i amcangyfrif y costau cysylltiedig.

### **Costau pontio i gynhyrchwyr**

**45.2** Gallai costau pontio i gynhyrchwyr gwastraff gynnwys cost amser staff wrth ymgyswrtio â'r rheoliadau newydd a'r gost amser o hyfforddi staff i gydymffurfio'n effeithiol â'r rheoliadau.

Costau meintioledig:

- Pennwyd gwerth costau pontio lle mae cynhyrchwyr hefyd yn gweithredu fel cludwyr gwastraff, broceriaid neu ddelwyr (CBDs), oherwydd ei bod yn ofynnol i'r busnesau hyn greu a chyflwyno cofnodion tracio gwastraff yn ddigidol yn rhinwedd eu gwaith yn trefnu symudiad gwastraff.
- Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon costau pontio CBD a gyflwynir mewn rhan arall o'r asesiad hwn, gan gipio'r costau sefydlu ac ymgyswrtio angenrheidiol i gydymffurfio a thracio gwastraff yn ddigidol.

Costau nad ydynt wedi'u cyfrif:

- Nid ydym wedi pennu gwerth costau pontio ar wahân ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt yn gweithredu fel cludwyr, broceriaid neu ddelwyr, oherwydd y canlynol:
  - Ansicrwydd ynghylch cyfanswm nifer y cynhyrchwyr gwastraff dan sylw
  - Ansicrwydd ynghylch faint o gynhyrchwyr a fyddai'n dewis mewnbynnu cofnodion tracio gwastraff yn ddigidol eu hunain yn hytrach na dibynnu ar gludwr gwastraff neu frocer.

Rhesymau:

- O dan y polisi tracio gwastraff yn ddigidol, mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol am greu'r cofnod tracio gwastraff ar y person sy'n trefnu'r symudiad gwastraff, sef y cludwr neu'r brocer fel arfer, nid y sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff.
- O ganlyniad, ychydig iawn o gostau pontio ychwanegol y mae disgwyl i'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr eu hysgwytio, a hynny'n bennaf yn gyfyngedig i ddeall y gofynion a derbyn cyfeirnod cofnod tracio gwastraff yn ddigidol gan eu contractwr gwastraff.

- Disgwylir i unrhyw gostau pontio ychwanegol sy'n wynebu cynhyrchwyr sy'n dewis mewnbynnu data eu hunain fod yn fach ac yn benodol i achosion unigol, ac nid oes digon o dystiolaeth i feintio i'r rhain yn gadarn ar hyn o bryd.

**45.3. Costau pontio i safleoedd gwastraff sy'n esempt** – Bydd llawer o safleoedd gwastraff esempt yn ysgwyddo costau pontio er mwyn cydymffurfio â'r gofynion i gofnodi manylion digidol am y gwastraff a dderbyniant o dan Opsiwn 3. Mae'r costau pontio yn debygol o fod yn debyg i'r rhai yr ydym yn tybio y bydd safleoedd gwastraff a ganiateir yn Opsiwn 2: costau hyfforddi staff, costau ymgysylltu, ymgysylltu â chwsmeriaid, newidiadau i'r gwasanaethau TG cyfredol a darparu unrhyw dechnoleg ar y safle. Ni fu modd i ni amcangyfrif y costau i'r busnesau hyn yn fanwl gywir.

**45.4** Bydd y costau pontio i safleoedd gwastraff esempt yn gwahaniaethu'n sylweddol o un safle i'r llall, yn dibynnu ar faint o wastraff maen nhw'n ei drin a'u defnydd cyfredol o wasanaethau TG. Yn wahanol i safleoedd trwyddedig, nid yw'n ofynnol i safleoedd sy'n esempt dalu i gofrestru ac mae cofrestru'n weithredol am dair blynedd. O ganlyniad, mae nifer fawr yn cofrestru 'rhag ofn'. Mae hyn yn golygu na allwn wneud penderfyniad dibynadwy ynghylch faint o safleoedd sy'n esempt sy'n weithredol. Heb gyfrif manwl gywir o safleoedd gweithredol, mae'n anodd cynhyrchu amcangyfrif y gellir ei amddiffyn o'r gost.

## **46. Risgiau a Rhagdybiaethau**

- Mae gan y diwydiant rheoli gwastraff ddealltwriaeth dda o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan eu cwsmeriaid, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am drin gwastraff a chyrchfannau terfynol, ond mae'r wybodaeth hon yn aml yn cael ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol gan y diwydiant. Felly, er mwyn cynyddu'r mynediad at ddata o'r fath trwy dracio gwastraff, byddai angen sicrwydd ar y diwydiant rheoli gwastraff ynghylch diogelwch data, natur ronnynog y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a chyfrinachedd masnachol.
- Nid yw'r rhagdybiaethau ynghylch lleihau troseddau gwastraff yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol ag ymyrraeth tracio gwastraff. Mae'r gwasanaeth tracio gwastraff yn ddigidol yn wasanaeth newydd ac o'r herwydd nid oes modd i ni gyrchu tystiolaeth ddomestig neu ryngwladol ar yr effaith y bydd yn ei chael ar leihau troseddau gwastraff. Yn hytrach, rydym wedi defnyddio tystiolaeth ar effeithiau ymyriadau wedi'u targedu i leihau troseddau gwastraff penodol. Mae peth tebygrwydd rhwng yr ymyriadau wedi'u targedu a'r gwasanaeth tracio gwastraff, i'r graddau eu bod i gyd yn cynnwys elfen o ddata gwell.

O ystyried yr ansicrwydd, rydym wedi sicrhau bod yr amcangyfrifon yn rhesymol trwy drafod yr effeithiau gydag arbenigwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig a'r cyrff rheoleiddio.

- Tybiwyd bod rhagdybiaethau cost adeiladu TG ar gyfer y gwasanaeth tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yr un fath â'r costau sy'n ddyledus ar gyfer adeiladu gwasanaeth tracio gwastraff canolog ar gyfer pob gwastraff. Oherwydd bod y gwasanaeth tracio gwastraff peryglus a gwastraff llygryddion organig parhaus yn cwmparu llai o wahanol fathau o wastraff na'r gwasanaeth tracio gwastraff ar gyfer pob gwastraff, mae'n bosibl y gallai'r costau adeiladu fod ychydig yn is.
- Mae'r arbedion amser i safleoedd gwastraff trwyddedig ac awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â dileu'r angen i gyflwyno ffurflenni gwastraff penodol bellach yn seiliedig ar ymatebion holiaduron, ac felly mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu arbediad amser cyfartalog cywir ar draws y diwydiant. Mae'r arbedion amser arfaethedig wedi cael eu hadolygu gan arbenigwyr polisi a'u gwirio am gywirdeb cyn cael eu cynnwys yn y gwerthusiad.
- Mae ansicrwydd ynghylch nifer y busnesau a fydd yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd yn ofynnol i bob safle gwastraff sy'n esempt gydymffurfio â'r diwygiadau. Er bod rheoleiddwyr wedi darparu rhestr o gludwyr, broceriaid, delwyr (CBDs) a safleoedd gwastraff sy'n esempt, nid yw'r cofrestrau hyn yn adlewyrchu nifer y gweithredwyr gweithredol yn ddibynadwy. Mae cofrestru yn weithredol am 3 blynedd, sy'n golygu ei bod yn bosibl nad yw rhai

endidau cofrestredig yn dal i fasnachu neu'n dal i ymgymryd â gweithgareddau gwastraff o gwbl. Yn yr un modd, mae rhyddid i safleoedd esempt gofrestru, a gall hynny arwain at or-gofrestru.

## **47. Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn asesu sut y gallai'r amcangyfrif o gostau a buddion y senarios amrywio yn sgil ansicrwydd ynglŷn â'r newidynnau mewnbwn allweddol a ddefnyddir yn y modelu. Yn y dadansoddiad, edrychwyd ar yr elfennau ansicr sy'n effeithio ar y costau a'r buddion i fusnesau yn bennaf.

**Tabl 19: Newidynnau a brofwyd ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd**

| Sensitifrwydd                                            | Disgrifiad o Sensitifrwydd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Dileu'r angen am ffurflenni safleoedd chwarterol</b>  | Y rhagdybiaeth bresennol yw y byddai'r gofyniad am ffurflenni safleoedd yn cael ei ddileu ym mis Hydref 2028, ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr. Gan fod yr amserlen hon yn ansicr, rydym wedi profi senario arall; 6 mis yn ddiweddarach (Ebrill 2029). Mae gostyngiad o £5m (£0.32m yng Nghymru) (heb ostyngiad) o ran budd arbed amser i fusnesau dros y cyfnod gwerthuso.                                        |
| <b>Tipio anghyfreithlon – rhagdybio gostyngiad o 25%</b> | Rydym wedi rhagdybio y bydd tracio gwastraff yn ddigidol yn lleihau tipio anghyfreithlon o 25%. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar arbenigedd polisi'r diwydiant, felly rydym wedi profi'r rhagdybiaeth hon trwy ddefnyddio amcangyfrif uchel ac isel (35% a 15%). Ar 35%, mae cynnydd o £3m (£0.14m yng Nghymru) y flwyddyn i'r budd i fusnes, ac ar 15%, mae llai o fudd o'r un swm (£3m, £0.14m yng Nghymru), heb ostyngiad. |

### **Mwy o gystadleuaeth yn y sector gwastraff**

**47.2** Mae gweithredwyr gwastraff anghyfreithlon yn tueddu i lesteirio cystadleuaeth trwy godi prisiau is na busnesau sy'n cydymffurfio. O dan yr opsiwn a ffefrir, disgwylir i dracio gwastraff yn ddigidol atal gweithredwyr gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio rhag dod i weithio neu barhau i weithio yn y sector, gyda hynny yn ei dro yn cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei drin yn gyfreithlon. Gall y gostyngiad mewn cystadleuaeth annheg a hwyluso busnes cyfreithlon i gyrchu gwastraff arwain at fwy o fuddsoddiad yn y sector, er enghraifft, ar ffurf cyflogi mwy o weithwyr neu fuddsoddiadau cyfalaf. Mae'n bosibl na fydd busnesau sy'n parhau'n weithredol dim ond trwy weithgaredd anghyfreithlon sy'n lleihau eu costau yn gallu aros yn y farchnad, gan weithredu fel rhwystr economaidd i rai gweithredwyr

## 48. Sensitifrwydd troseddau gwastraff

**48.1** Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos sut y mae'r buddion amcangyfrifedig yn amrywio wrth ddefnyddio'r rhagdybiaethau uchel ac isel a nodwyd eisoes yn yr Asesiad Effaith hwn.

**48.2** Mae graddfa buddion troseddau gwastraff yn ansicr yn ei hanfod, a gall amrywio oherwydd ystod o ffactorau ymddygiadol a gweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethau o ran pa mor gyflym y mae busnesau yn mabwysiadu ac yn cydymffurfio â thracio gwastraff yn ddigidol, pa mor effeithiol y gall rheoleiddwyr ddefnyddio'r data i dargedu gorfodi, ac i ba raddau y mae gweithredwyr anghyfreithlon yn cael eu hatal neu eu disodli o'r farchnad. O ganlyniad, gall y buddion a wireddir fod yn uwch neu'n is na'r amcangyfrifon canolog, yn dibynnu ar y ffactorau hyn dros amser.

**48.3** Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r ystodau cost sy'n deillio o'r rhagdybiaethau amgen hyn ac yn dangos i ba raddau y mae'r canlyniadau gwerthuso yn sensitif i ansicrwydd ynghlwm wrth fewnbynau allweddol. Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu tryloywder ynghylch cadernid yr amcangyfrifon cost.

**Tabl 18: Sensitifrwydd buddion troseddau gwastraff (dros y cyfnod gwerthuso, heb ostyngiad)**

| Math o drosedd gwastraff           |       | Amcangyfrif | Budd i'r Cyhoedd | Budd i Fusnesau | Budd i Gymdeithas Ehangach |
|------------------------------------|-------|-------------|------------------|-----------------|----------------------------|
| Camddisgrifio Gwastraff            | Y DU  | Canolog     | 317.38           | N/A             | Amherthnasol               |
|                                    |       | Isel        | 270.00           |                 |                            |
|                                    |       | Uchel       | 332.56           |                 |                            |
|                                    | Cymru | Canolog     | 14.71            | N/A             | Amherthnasol               |
|                                    |       | Isel        | 12.52            |                 |                            |
|                                    |       | Uchel       | 15.42            |                 |                            |
| Tipio Anghyfreithlon               | Y DU  | Canolog     | 70.76            | 385.11          | 0.23                       |
|                                    |       | Isel        | 43.87            | 238.75          | 0.14                       |
|                                    |       | Uchel       | 97.65            | 531.48          | 0.32                       |
|                                    | Cymru | Canolog     | 3.28             | 17.85           | 0.01                       |
|                                    |       | Isel        | 2.03             | 11.07           | 0.01                       |
|                                    |       | Uchel       | 4.53             | 24.64           | 0.01                       |
| Safleoedd gwastraff anghyfreithlon | Y DU  | Canolog     | 25.15            | 62.43           | 15.23                      |
|                                    |       | Isel        | 22.77            | 31.99           | 7.81                       |
|                                    |       | Uchel       | 27.53            | 92.86           | 22.66                      |
|                                    | Cymru | Canolog     | 1.17             | 2.89            | 0.71                       |
|                                    |       | Isel        | 1.06             | 1.48            | 0.36                       |
|                                    |       | Uchel       | 1.28             | 4.30            | 1.05                       |
|                                    | Y DU  | Canolog     | 7.80             | 0.13            | N/A                        |

|                                      |       |         |      |      |     |
|--------------------------------------|-------|---------|------|------|-----|
| Allforio Gwastraff<br>Anghyfreithlon |       | Isel    | 7.01 | 0.12 |     |
|                                      |       | Uchel   | 8.59 | 0.15 |     |
|                                      | Cymru | Canolog | 0.36 | 0.01 | N/A |
|                                      |       | Isel    | 0.32 | 0.01 |     |
|                                      |       | Uchel   | 0.40 | 0.01 |     |

## **49. Agweddau ar Gystadleuaeth**

**49.1** Yr effaith allweddol ar gystadleuaeth fydd annog amodau tecach o fewn y diwydiant gwastraff a chefnogi busnesau cyfreithlon. Rydym yn disgwyl y bydd y system tracio gwastraff yn symud cyfran sylweddol o'r gwastraff sy'n cael ei drin yn anghyfreithlon i gael ei drin yn gyfreithlon. Bydd y newid hwn yn cynnig cyfleoedd i fusnesau cyfreithlon, o ran gallu cyrchu mwy o wastraff y gellir elwa arno, a hynny yn ei dro yn cynnig gwell cyfleoedd i fuddsoddi yn eu busnes (naill ai trwy gyflogi mwy o weithwyr neu trwy fuddsoddiadau cyfalaf) o ganlyniad i gael mwy o siawns i wneud elw. Dylai amodau tecach wella effeithlonrwydd o fewn y sector hefyd.

**49.2** Dim ond gweithredwyr sy'n gallu fforddio cydymffurfio â thracio gwastraff yn ddigidol a fydd yn aros yn y farchnad. O ganlyniad, gallai mwy o fuddsoddi a chostau rhedeg uwch fod yn rhwystr economaidd i rai droi at y sector. Fodd bynnag, cynlluniwyd yr ymyrraeth hon yn ofalus i atal gweithredwyr gwastraff anghyfreithlon a gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio rhag troi at y sector gwastraff neu aros ynddo, tra'n dal i alluogi busnesau sy'n cydymffurfio i weithredu trwy sicrhau bod costau cydymffurfio yn cael eu gosod ar lefel resymol.

**49.3** Trwy fynd i'r afael â methiannau gwybodaeth a chydlynu sylfaenol yn y sector gwastraff, bydd tracio gwastraff yn ddigidol yn creu ffynhonnell ddata ddibynadwy gyffredin ar hyd y gadwyn wastraff. Bydd y tryloywder hwn yn helpu busnesau cyfreithlon i ddeall llif gwastraff yn well, nodi cyfleoedd i arbed costau neu ailgylchu, a chystadlu'n deg. Bydd hefyd yn gwella cydlynu rhwng rheoleiddwyr a'r diwydiant, gan leihau dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Gyda'i gilydd, dylai'r effeithiau hyn gefnogi marchnad fwy effeithlon a chystadleuol, lle gall gweithredwyr sy'n cydymffurfio ffynnu, a lle mae buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at weithgarwch cyfreithlon.

## **50. Casgliad**

**50.1** Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffeirir oherwydd ei fod yn darparu'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr gan gyflawni'r nodau polisi a'r effeithiau arfaethedig. Nid yw opsiynau 1 a 2 yn cael eu ffafrio oherwydd na fyddai'r effeithiau niweidiol presennol i'r amgylchedd naturiol, cymunedau lleol a busnesau cyfreithlon yn cael eu hystyried yn ddigonol.

**50.2** Heb y gallu i dracio pob gwastraff yn effeithiol ac yn effeithlon a chyfleu data perthnasol yn amserol (fel sy'n cael ei gynnig o dan Opsiwn 3) mae risg o'r effeithiau canlynol:

- Difrod amgylcheddol pellach;
- Aneffeithlonrwydd gweithredol a;
- Llai o gyfleoedd buddsoddi ar gyfer arloesi.

## **51. Monitro a Gwerthuso a'r Adolygiad Ôl-weithredu**

Y bwriad yw monitro effaith y polisi tracio gwastraff gyda'r bwriad o werthuso'r mesurau rheoleiddio mewn adolygiad ôl-weithredu yn 2028. Bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn ceisio dadansoddi data a gipiwyd trwy'r gwasanaeth tracio gwastraff, ynghyd â data a gasglwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a galwadau am dystiolaeth, er mwyn asesu:

- **Effaith Tracio Gwastraff ar droseddau gwastraff** – Byddwn yn ceisio casglu data penodol i gefnogi'r adolygiad ôl-weithredu, sef amcangyfrif o nifer a maint safleoedd gwastraff anghyfreithlon, allforion gwastraff anghyfreithlon a gweithredwyr anghyfreithlon ar ôl rhoi'r diwygiadau ar waith. Byddwn hefyd yn adolygu faint o wahanol fathau o wastraff sy'n cael eu hadrodd (tueddiadau o ran gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus) a data ar wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi o dan wahanol gyfraddau treth, er mwyn deall buddion gwasanaeth tracio gwastraff o safbwynt lleihau camddosbarthu gwastraff.
- **Effaith tracio gwastraff ar fusnesau cyfreithlon** – Mae gennym ddiddordeb yn yr effaith ar fusnesau cyfreithlon, yn benodol faint o dunelledd ychwanegol o wastraff y maent yn ei drin ar ôl gweithredu'r diwygiadau, nifer y busnesau newydd sy'n ymuno â'r farchnad, graddau'r arbedion amser o ganlyniad i'r polisi, ac unrhyw faich costau ychwanegol mae gweithredwyr wedi'i ysgwyddo.
- **Dargyfeirio deunyddiau o safleoedd tirlenwi/llosgi a gwella cyflenwad deunyddiau crai hanfodol** – Byddwn yn adolygu'r llif o ddeunyddiau sy'n cyrraedd safleoedd tirlenwi neu losgi ac yn cael ei anfon o'r mannau hynny i'w ailgylchu neu ei aildddefnyddio ar ôl rhoi mesurau tracio gwastraff ar waith, a chymharu hyn â data hanesyddol.
- **Arbedion effeithlonrwydd i reoleiddwyr** – Byddwn yn ymgysylltu â'r rheoleiddwyr i ddeall i ba raddau y maent wedi elwa ar arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i gadw data gwastraff yn ddigidol (ac mewn system ganolog ar gyfer Opsiwn 3).

Mae'r adolygiad ôl-weithredu yn debygol o ystyried y cwestiynau canlynol:

- Canlyniadau: Pa wahaniaeth (os o gwbl) gafodd y mesurau?
- Mecanweithiau, cyd-destunau a phriodoli: Pam ddigwyddodd y newidiadau y sylwyd arnynt?
- Sut y cafodd y gweithgareddau eu cyflawni, a beth allwn ni ei ddysgu?
- Gwerthusiad economaidd: A oedd y buddion yn cyfiawnhau'r costau?